

ECO'R WYDDFA

Rhif 175

Nadolig 1991 / Ionawr 1992

Pris 25c.

Cyfarchion y Tymor i bob un ohonoch



Dyn prysur iawn yw Siôn Corn y dyddiau yma — ond cafodd ei ddal yn ddiweddar gan bedair o genod bach del o Fryn'refail mewn Ffair Nadolig yn y pentref. Felly, caiff Rhian, Bethan, Ruth ac Ellen gynrychioli holl blant bach y fro sy'n edrych ymlaen at ymweliad yr hen ŵr ffeind.

HATRIC!

YR EIDION GORAU AM Y TRYDYDD TRO



Kenny yn arddangos rhai o'r tlysau a enillwyd ganddo eisoes.

Bu dydd Gwener, Rhagfyr 13 yn ddiwrnod lwcus i gigydd lleol ac i'w gwsmeriaid ledled y fro.

Dyna'r diwrnod pan y prynodd Wavell Roberts o Lanrug, sy'n hysbysebu'n rheolaidd yn yr Eco, yr 'eidion gorau' yn arwerthiant Gaerwen. Dyma'r trydydd tro o fewn wyth mlynedd iddo wneud hyn. 'Mae'n bwysig iawn fy mod yn gallu cynnig y gorau i'r cwsmeriaid,' oedd ei sylw.

Mae Wavell Roberts yn falch iawn o gael arddangos cwpan y 'Supreme Champion' a gyflwynwyd i Arfon Jones, Llangristiolus, Môn, a fagodd y bustach a ddangosodd mor dda yn sioe fawr Smithfield yn ddiweddar.

Cangarw o Lanbêr!



Pwy yw Carwyn y Cangarw Cymraeg? Sut cafodd o ei enw, a beth sydd ganddo yn ei boced? A phwy, tybed, yw Rhodri Rafiwr? Choeliech chi byth — dau gymeriad ydynt sydd ar restr anrhegion Wili Jôs o Lanbidirhodyn i Santa Clôs! Ond mewn gwirionedd ffrwyth dychymyg yw'r cwbl — ffrwyth dychymyg anhygoel gŵr a gwraig o Lanberis.

Ar siawns yn unig yr anfonodd Mel a Menai Pitts o Goed y Glyn, Llanberis, lawysgrif o'u stori 'Carwyn y Cangarw Cymraeg' i un o weisg amlycaf Cymru. Yn annisgwyl iddynt cynhwyswyd eu deunydd ar restr cyhoeddi Gwasg Gomer, Llandysul. Tipyn o wefr, felly, i'r ddau oedd gweld am y tro cyntaf erioed eu cynnyrch yn ymddangos yn daclus a deniadol y Nadolig hwn rhwng cloriau llyfr.

Dyfeisiwyd y cymeriadau hynod fodern yma gan Mel, yn wreiddiol i ddiddori ei ddau fab Iwan a Hywel ar ffurf stori lafar. Aeth Menai ati i groniclo'r stori ar bapur a'i hanfon i'r Wasg yn y gobaith y byddent yn gweld golau dydd rhyw ddiwrnod.

Mae'n amlwg fod Gwasg Gomer wedi eu plesio ac wedi rhagweld potensial i'r deunydd. Mae'r cymeriadau yn ffres, y

stori yn wreiddiol ac ysgafn ac yn gwgl Gymreig ei naws. Mae'r diwyg yn hynod ddeniadol a'r gosod yn ddiddorol. Mae yma stori i'w darllen i blant neu i blant ei darllen yn rhwydd mewn iaith gaboledig naturiol. Rhydd bleser i blant o ystod eang o oedran.

Ni ddylai unrhyw hosan fod ben *Cerwyn y Cangarw* ynddi y Nadolig hwn. Yn wir, gall Carwyn a Rhodri, ymhen amser, amlygu eu hunain fel arwyr cyfres o lyfrau neu sêr nifer o gartwnau comic neu sgrin y teledu. Amser a ddengys.

Carwyn y Cangarw Cymraeg, Mel a Menai Pitts. Cyhoeddwyd gan Wasg Gomer, Llandysul. Pris: £1.95.



Pencampwyr Carioci



Grŵp Carioci Waunfawr yn cael croeso yn Llundain. Aelodau'r grŵp (o'r chwith i'r dde): Gwennan Jones, Hefina Lewis, Carolyn Griffith a Ceryl Davies. Trowch i dudalen 22 am y stori gyflawn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 174
NADOLIG 1991
IONAWR 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Galfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynhaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN
IONAWR 20
os gwelwch yn dda

Llythyr

Oes Ysgol Sul yn eich ardal?

Rwy'n siŵr bod y mwyafrif
ohonom wedi mynychu yr Ysgol Sul
yn gyson ar ryw adeg o'n bywydau,
ac wedi cael budd mawr o berthyn
iddi. Cawn dystiolaeth cyson gan
amryw am ddylanwad yr Ysgol Sul
ar eu bywydau, trwy ddylanwad y
dysgu, cymdeithasu, rhannu, ac yn
y blaen.

Yn anffodus gwyddom am
eglwysi, a phentrefi hyd yn oed, lle
nad oes yna Ysgol Sul bellach ar
gael, sy'n amddifadu ein plant/
ieuenctid o'r cyfle i ddysgu am eu
Harglwydd Iesu Grist. Os yw hyn
yn wir am eich sefyllfa chi, ac yn
teimlo y carech fynd ati i newid y
sefyllfa, beth am gysylltu â ni i
drafod y posibiladau.

Me yna ddau ohonom yn
gweithio i ddatblygu gwaith yr
Ysgol Sul a medrwn weithio yn lleol
gyda chi i hyrwyddo Ysgol Sul
newydd.

Os ydych am fentro, cysylltwch
â ni, a medrwn gyfarfod â chi, er
mwyn galw cyfarfod i bawb sydd
â diddordeb yn lleol.

Yr eiddoch yng Nghrist,
Parchg D. ALED DAVIES,
Swyddog Datblygu,
Cyngor Ysgolion Sul,
Ysgol Addysg C.P.G.C.,
Ffordd Deiniol, Bangor.
Ffôn: (0248) 351151 Est. 2947.

TANDDAEAROL

Rhwng Ionawr 8 a 25 bydd Cwmni
Hwyl a Fflag yn cyflwyno
Tanddaearol, drama newydd gan
Angharad Tomos.

Yn y ddrama ymdrecha Idris ac
Annie i anwybyddu grym y cof —
Idris wrth geisio anghofio ei
wreiddiau trwy ddianc — ac Annie
wrth iddi geisio anghofio y modd y
rhwystrodd y dyfodol. Cyfarfu'r
ddau am y tro cyntaf ers pymtheg
mlynedd...

Cast 'Tanddaearol' yw Judith
Humphreys, Idris Morris Jones,
Dewi Rhys a Siân Wheldon, dan
gyfarwyddyd Wyn Williams.

Cynhelir y perfformiadau cyntaf
o'r ddrama yn **Theatr Gwynedd**,
Bangor, nos Fercher, Ionawr 8 hyd
nos Sadwrn, Ionawr 11. Mae
tocynnau ar gael o'r Theatr ar
Bangor 351708.

Dilyni'r 'Tanddaearol' yn rhaglen
Hwyl a Fflag gan Wyl Ddrama
Codi'r Hwyl 5, sydd i'w chynnal yn
Theatr Gwynedd a chanolfannau
eraill yn ardal Bangor rhwng
Chwefror 26 a Mawrth 7.



Gwybodaeth am Dafarnau

Os ydych chi'n gwybod am dafarn leol sy'n haeddu cael ei
chynnwys mewn cyfrol newydd sbon am dafarnau yng
Nghymru, byddai gwasg Y Lolfa yn ddiolchgar dros ben pe
baech yn anfon gwybodaeth fanwl amdani. Mae'r Wasg
wrthi'n paratoi argraffiad cwbl newydd o'r gyfrol **Tafarnau
Cymru** i'w gyhoeddi y flwyddyn nesaf. Y bwriad yw dethol
cant o dafarnau ledled Cymru i'w cynnwys yn y gyfrol.

Bydd Y Lolfa yn anfon potel o win
yr un o **Win Penblwydd Arian y
Lolfa 1992** i'r rhai a fydd wedi
enwebu'r 100 tafarn a gynhwysir
yn y gyfrol — gwin gwyn Ffrengig
o safon uchel wedi ei labelu'n
arbennig i ddatlu'r achlysur
hanesyddol hwn! Bydd yr enillwyr
yn casglu eu gwobrau amheuthun
o'u siop Gymraeg leol. Bydd cyfle
hefyd i'r enwebwyr llwyddiannus
gael cyhoeddi eu henwau yn y
gyfrol os ydynt yn dymuno.

Yn ogystal ag enw a chyfeiriad y
dafarn ac enw'r tafarnwr, gobeithir
casglu gwybodaeth ynglŷn â'r
mathau o gwrw a bwyd sy'n cael
eu cynnig, amcangyfrif o'r prisiau
(rhad, rhesymol neu ddud),
awyrgylch a Chymreictod y dafarn,
y math o gwsmeriaid, disgrifiad o'r
dafarn, unrhyw ddigwyddiadau
cymdeithasol neu nosweithiau
arbennig a hanes y dafarn. Gorau
i gyd os gellwch anfon llun o'r
dafarn yn ogystal.

Mae holiadur arbennig wedi ei
ddarparu i roi syniad manwl o'r
math o wybodaeth y gobeithir ei
gasglu, felly mae croeso i chi un ai
anfon gwybodaeth yn
uniongyrchol, neu anfon i ofyn am
gopi o'r holiadur.

Dylech anfon eich adroddiad at
**Elin Llwyd Morgan (Golygydd), Y
Lolfa, Talybont, Aberystwyth,
Ceredigion SY24 5HE, erbyn Gŵyl
Ddewi 1992.**

DRAENOG



Yn Gelli, Llanddeiniolen un diwrnod
Digwyddiad go ryfedd a fu,
Pan sbonciodd rhyw llyffant bach melyn
Yn ddewr a digywilydd i'r tŷ.

'Roedd Les, Rhiannon a Robin
Erioed wedi gweld y fath dro,
'O'r a'gwy' be wnawn ni rŵan.'
Medda Robin, bron myned o'i go'.

Ond y llyffant bach melyn, yn dawel
A sbonciodd yn ddewr yn ei flaen —
Nes mynd o dan un o'r dodrefn
'Roedd o yno i'w weld yn blaen.

'Yr a'gwy' sut cawn ni o o fan'na?'
Medd Rhiannon, yn welw ei phryd.
Ond Les yn ddi-lol ddaeth a'r Hoover
A thynnodd ei dop yr un pryd.

Fe stwffiwyd y teclyn i'r gornel
I'r lle 'roedd y llyffant o'r bron
A Les a amneidiodd yn dawel
I rywun yn awr roi'r 'switch-on'.

Y llyffant bach melyn a sugnwyd
Yn sydyn i'r bag heb ddim lol,
Ac yno yn methu a datrys
Fod 'na gymaint o wynt yn ei foll

Fe ruthrwyd a'r Hoover o'r gegin —
Ni allai fawr neb fynd yn gynt,
Ond pan aethant yno ymhen ysbaid —
Y melyn ddiflannodd i'r gwynt!



Colofn Nawdd Cymdeithasol

Mae'r rhan helaeth o bobl o bryd i'w
gilydd yn ymweld ag ysbyty, un ai i
aros, neu fel claf allanol, neu i
ymweld â pherthynas neu ffrind. Gall
achlysuron o'r fath effeithio ar hawl
rhywun i Nawdd Cymdeithasol
mewn gwahanol ffyrdd, fel yr esbonir
isod —

1. Mynediad am gyfnod:

Mae gostyngiad yn y rhan fwyaf o
fudd daliadau a phensiynau ar ôl 6
wythnos mewn ysbyty, ond mae rhai
budd-daliadau, fel Lwfans Gweini
(Attendance Allowance), yn newid
neu ddarford ynghynt. Mae
cyfanswm gwahanol adegau mewn
ysbyty, os nad oes mwy na phedair
wythnos rhyngddynt, yn cyfrif tuag
y cyfnodau uchod. Mae'n **BWYSIG**
felly eich bod yn anfon i'r Adran
Nawdd Cymdeithasol, cyn gynted a
phosib, os ydych yn mynd i'r ysbyty
i aros, i sicrhau na fydd gormod o
arian yn cael ei dalu i chwi, ac i
osgoi'r angen i'w dalu yn ôl.

2. Ymweld ag ysbyty fel claf allanol:

Mae'n bosib i rai sy'n mynychu
ysbyty fel claf allanol gael cymorth
tuag at gostau teithio i'r ysbyty os
ydynt yn derbyn Cymhorthdal
Incwm, Credyd Teulu, neu os yw'r
person neu'r teulu ar incwm isel
(drwy lenwi ffurflen AG1). Mae
enghreifftiau eraill o rai fyddai'n
deilwng, ond y rhai uchod yw'r rhai
mwyaf cyffredin.

3. Ymweld â pherthynas sy'n glaf mewn ysbyty:

Mae'n bosib, weithiau, i rai sy'n
derbyn Cymhorthdal Incwm gael
cymorth tuag at gostau ymweld â
perthynas sydd yn yr ysbyty o dan
y Gronfa Gymdeithasol.

Os ydych am fwy o fanylion neu
ffurflen gais, ffoniwch Linell Gymorth
Ddi-dâl Nawdd Cymdeithasol ar
0800 289011. Ni fydd yr alwad yn
costio dim i chwi.



**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer
priodasau, dathliadau bedydd,
pen-blwydd a phob achlysur
arbennig arall. Gallwn drefnu
adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
**Nadolig Lawen a Blwyddyn
Newydd dda oddi wrth
Lin a John**

Llythyr o Brunei

Yr ail yn y gyfres o lythyrau o Brunei gan Delyth Eironwy o Lanberis.

SALWCH, JAZZ A STORM

Dyma hi yn fis Tachwedd yn barod a hanner tymor wedi hen fynd heibio. Bydd 'Dolig yn cyrraedd cyn bo hir, hyd yn oed yn Brunei bell. 'Rydym eisoes wedi dechrau paratoi at ein drama Nadolig yn yr ysgol, ac mae pawb wedi trefnu eu gwyliau Nadolig ers wythnosau bellach.

'Rydw i wedi bod yn teithio gryn dipyn yn ystod y mis diwethaf. Ymweld â Bandar Seri Begawan, sef prifddinas y lle 'ma, yn ogystal â chartref rhif un y Sultan (mae ei ail gartref drws nesa' i'r lle dwi'n byw!)

Sôn am le drewllyd. Dydi Venice ddim ynddi. Ysblander y palas yn gwrthgyferfynnu efo cartrefi'r bobl leol.

Bûm hefyd drosodd i'r wlad drws nesaf, sef Sarawak, ond trip anffodus fu hwn gan i mi gael fy hun yn yr ysbyty lleol. Yr unig beth dwi'n gofio ydy teimlo'n sâl, ac yna deffro mewn adeilad dieithr a gweld y dyn bach yma efo tyrban am ei ben (y meddyg) yn hogran uwch fy mhen! Beth oedd yn bod? Wel, math o alergedd medda fo, cyn rhoi clamp o nodwydd yn fy mraich. Deffro ymhen deunaw awr yn holliach. 'Dydi'r bil ddim wedi cyrraedd eto!

Mae'r bywyd cymdeithasol wedi prysuro'n arw hefyd. 'Dwi wedi ymuno â grŵp jazz i chwarae'r hen glarinet a fu'n segur ers deng mlynedd bellach.

Mae pawb arall a ddaeth yma fis Awst wedi derbyn eu 'sea freight' erbyn hyn — ia, pawb ond y fi! Dydi hwnnw ddim hyd yn oed wedi cychwyn o Southampton eto! Ta' waeth, mi fydd yma cyn 'Dolig gobeithio!

Tra'n teithio adref un noson fe'm cefais fy hun yng nghanol storm anferth. Roedd y glaw yn pistyllo i lawr, a doeddwn i'n gweld dim. Ond mwya' sydyn dyma fellten yn taro ochr y car.

DECHRAU TYMOR Y GWLEDDA!



Cinio Nadolig cynnar i henoed Llanrug yn yr Ysgol Gynradd.

Andros o fflach a chlec, a finna erbyn hyn mewn panic llwyr. Cefais gysgod rhag y storm gan deulu caredig.

Sôn am groeso. Bûm yno am bron i deirawr cyn mentro allan unwaith eto. 'Roedd marc brown, sef ôl y fellten i'w weld ar ddarn metel o'r olwyn, ond heblaw am hynny 'doedd y car fawr gwaeth.

Rydw i'n ymweld â'r teulu yma bob yn hyn a hyn ac rwyf erbyn hyn wedi cael gwahoddiad i briodas eu merch ddechrau Rhagfyr. Dwi'n siŵr y bydd hyn yn borfiad go wahanol.

Mae hi'n nos Sul yma, felly gwell yw rhoi taw arni am rŵan a mynd ati i baratoi gwaith ar gyfer y plantos bach!

Hwyl!

DELYTH EIRONWY



HYFFORDDIANT MEWN SWYDD I RAI O AELODAU NEWYDD TÎM YR 'ECO'



GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Bistro

43-45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn 871278

Discount o 10% i bartion ym mis Ionawr.
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Danny a Nerys Roberts** a'r staff

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i
chi oll oddi wrth Tim, Jackie a phawb yng

NGORSAF BETROL



BERAN



DEINIOLLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod ar Tachwedd 3, dan lywyddiaeth Mrs Eileen Hughes gyda'r gwasanaeth agoriadol yng ngofal Miss Jean Moeller. Ein gwraig wadd oedd Miss Dorris Adlam sydd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf yng Nghaernarfon. Cafwyd noson ddifys yn ei chwmni yn siarad am ei phrofiad fel athrawes yng ngharchar Caerdydd. Diolchwyd i Miss Adlam gan Mrs Gwyneth Price. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Price a Mrs Phyllis Jones. Enillwyd y raffl oedd Mrs Jennie Williams a Mrs Rosina Worth.

Clwb Elidir: Ar Hydref 15 treuliwyd prynhawn difys wedi ei drefnu gan aelodau selod di-Gymraeg y Clwb, ond sydd i gyd erbyn hyn yn dysgu'r iaith, sef Mrs Dolly Brown, Mrs Edna Coles, Mrs Pat Evans, Mrs Eve Braithwaite a Miss Jean Moeller. Gwesteion y te oedd Mrs Pat Evans, Mrs Edna Coles a Mrs Dolly Brown. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Pat Evans ac fe'i enillwyd gan Mrs Janet Bingham. Cawsom fel Clwb rodd anrhydeddus iawn gan Eglwys y Tabernacl gynt ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog a'r aelodau sy'n gysylltiedig â hyn.

Cafwyd cyfarfod arall ar Hydref 29 wedi ei drefnu gan Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Grace Williams, Miss Jean Moeller a Mrs Sally Lewis. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Grace Williams a'r enillydd oedd Mrs Hannah J. Thomas. Dymunwyd gwellhâd buan i Mrs Jane Jones ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Mrs Aileen M. Jones ar golli brawd-yng-nghyfraith a Mrs Blodwen Parry ar goli chwaer-yng-nghyfraith. Estynnwyd croeso i ffrind Miss Jean Moeller i'n plith. Braf oedd cael llongyfarch dwy o'n haelodau ar fod yn fuddugol yn yr eisteddfod leol, sef Mrs Jennie E. Williams a Miss Jean Moeller.

Cyfarfu'r Clwb hefyd ar Tachwedd 26, dan lywyddiaeth Mrs Megan P. Morris. Gan ei fod yn gyfarfod diwethaf cyn y Nadolig cafwyd gwasanaeth arbennig wedi ei drefnu gan Mrs Megan P. Morris a chwymerwyd rhan gan Mrs Alwen Jones, Mrs Dolly Brown, Mrs Jennie Williams, Mrs Megan P. Morris a Miss Eileen Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Annie M. Morris a Mrs Eve Braithwaite. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Mrs Eve Braithwaite, oedd Mrs Eirlys Ll. Jones. Estynnwyd croeso'n ôl ar ôl ei hanwylder i Mrs Mair Lewis. Cydymdeimlwyd â theulu y chwaer ffyddlon Mrs Grace Williams ac hefyd gyda Miss Lizzie Thomas, a Mrs Dilys Menai Thomas. Yr oeddem yn cofio hefyd am Mrs Jane Jones, Mrs Mary Hughes a'n cyn-aelodau sydd erbyn hyn mewn cartrefi henoed. Ein diolch unwaith

yn rhagor i Mr Robert Ll. Jones, Rhydfadog am ei haelioni tuag atom. **Merched y Wawr:** Daeth Mrs Gill Brown, Waunfawr, i'r cyfarfod ar Tachwedd 18 i ddangos crochenwaith a gwaith llaw yr oedd wedi ei wneud tros y blyneddod. Diolchwyd iddi gan Mrs Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Buddug Jones.

Yng nghyfarfod Rhagfyr 16 bydd Mr Twm Elias, Plas Tan-y-bwlch yn rhoi sgwrs ar 'Blanhigion Defnyddiol'. **Sefydliad y Merched:** Ar Rhagfyr 2 cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mrs Marian Williams. Roedd yn noson y Cyfarfod Blyneddol, a chroesawyd Mrs Pat Jones, Brynrefail, y V.C.O. Darllenwyd cofnodion am 1991 gan yr ysgrifenyddes Mrs B. Wyn Davies a darllenwyd y fantolen ariannol gan y drysoryddes Miss E. Williams. Swyddogion newydd 1992 yw Mrs Eirlys Williams, ysgrifenyddes; Mrs E. Lloyd Jones, trysoryddes.

Nos Wener, Rhagfyr 6, cafwyd cinio Nadolig y gangen yn Getws Derw, Moelfre, a chafwyd noson ddifys. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 6.

Clwb Pêl-droed Deiniolen: Enillwyd Clwb 200 yw — £80: R. s. Evans; £40: Dilys W. Davies. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dathlu a Diolch: Yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ar Tachwedd 8, ganwyd mab, Gavin Michael, i Karen a Michael Taylor, Hafan, 8 Cyfni Terrace. Dymuna Karen a Michael ddiolch i'w ffrindiau a pherthnasau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab. Diolch yn arbennig i Adran Arbennig Ysbyty Dewi Sant.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Jane Jones, Rhydfadog, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r blodau hardd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Diolch o galon i'm ffrindiau a'm teulu a'r cymdogion am yr holl ymweliadau a'r caredigrwydd tra bum yno, ac ar ôl dod gartref.

Dymuna Melisa Ann Owen, 9 Cynfi Terrace, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ar Rhagfyr 3.

Dymuna Mrs Annie Williams, 1 Tai California, ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am yr holl ddymuniadau da a'r rhoddion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Dymuna Nadolig Llawn i chwi oll.

Dymuna Eilee, Philip a Gwenda Moss, Porthaethwy, ddiolch yn fawr iawn i drigolion bro Eco'r Wyddfa am yr arian, eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad tuag atynt hwy a'r teulu yn eu profedigaeth fawr o golli wyres a merch fach annwyl iawn, a hithau ond yn ddwyflwydd oed.



Diolch o galon i bawb.

Dymuna pwyllgor Tîm Pêl-droed Hŷn Deiniolen ddiolch o galon i holl garedigion a chefnogwyr y tîm am eu haelioni a'u cefnogaeth drwy'r tymor presennol, ac hefyd ar hyd y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn drydydd yng Nghyngair Sain, a dim ond wedi collu un gêm ers dechrau'r tymor. Mawr obeithiwn y daw yr un llwyddiant iddynt yn y flwyddyn newydd. Uchod gwelir llun y tîm yn eu dillad newydd a roddwyd yn rhodd yn ddiweddar gan berchnogion Modurdy Arfon, Deiniolen.

Diolch: Dymuna Eira Ann Williams, 21 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau a'r caredigrwydd tuag ati tra y bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn far iawn i bawb.

Y Ganolfan: Trist yw nodi y methwyd ac ethol swyddogion i Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan mewn cyfarfod cyffredinol i'r ardalwyr a gynhaliwyd ar nos Wener, 13 Rhagfyr. Ychydig iawn o'r mudiadau sy'n defnyddio'r Ganolfan a drafferthodd anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod cyffredinol fel ei bod yn amhosibl ethol swyddogion. Canlyniad hyn yn

gyfansoddiadol yw nad oes Pwyllgor Rheoli i'r Ganolfan ac na ellir felly caniatáu defnydd o'r ystafelloedd o hyn ymlaen. Bwriedir ail alw cyfarfod cyhoeddus arall yn nechrau mis Ionawr ac fe apelir yn daer ar i BOB mudiad anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod hwn. **Mae'n rhaid cael pwyllgor i reoli y defnydd o'r lle.**

RHAGFYR

*Agoriad y gaeaf gyda chenillys a lluwch,
A'r tyddymur yn porthi yr eidion a'r fuwch,
Yr hen ddafad yn crafu y gefnen am fwyd,
A'r ieir yn mynd yn gynnar bob nos ar y glwyd.*

*Mae'r dyddiau yn cwtio a'r nosweithiau yn hir,
A'r sêr yn yr awyr i'w gweld yn glir,
Y lleuad yn gwenu a'r barrug yn drwm,
A'r llwynog yn udo mor bell yn y cwm.*

*Mis cardod i'r adar o gumpas y tŷ —
Pan ddaw y Robin a'r Titw mor hoffus a hy,
Mis y Geni a'r Cofio — penblwydd Iesu Grist;
Rhaid tynnu yr addurn unwaith eto o'r gist.*

*Difynruch, dedwyddwch, a lle i'r Ysbyrd Glân,
Yn gymysg â'r cardiau uwchben y lle tân,
Ac angel yr Arglwydd yn edrych i lawr
Yn rhoi sêl Ei fendith ar Achos mor fawr.*

JOHN V. MORRIS, Rhianfa, Clwt-y-bont.



Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER Tŷ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 76506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn
ystod y flwyddyn



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i bawb

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **871213** i drefnu amser



**MICHAEL A RAILI
BURTON**

**LLYTHYRDY
BETWS
GARMON**

**Ffôn:
Waunfawr
233**

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb



**CYFARCHION
NADOLIG**

**WAUNFAWR
A BETWS GARMON**

**Y FAVORIT ESTATE LS
– mwy fyth o lwyddiant
ysgubol.**



SKODA

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r Staff

**MODURDY
PANT WAEN
WAUNFAWR**

Ffôn: 359



**SNOWDONIA
FIRE
PROTECTION**

YR HEN EFAIL

WAUNFAWR Ffôn 235

Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
hyn oll, a llawer mwy i'w weld
yn ein siop

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth David a Peter Greasley a'r staff



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH
ALLEN AC ANNE ADDISON A'R TEULU



**YSTORFA
Tŷ NEWYDD
WAUNFAWR 708**

Bwydydd, Melysion, Ffrwythau
Papurau Newydd, Cardiau
a Bwydydd Anifeiliaid



WELDPAR
CYMRU WALES

8 Pant y Waun

WAUNFAWR. Ffôn:426

WELDIO O'R SAFON UCHAF


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Brian Parry



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 253

**CASTELL
CIDWM**

BETWS GARMON

Ffôn: Waunfawr 243

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda oddi wrth
Penny a David Roberts

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am baned o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
bawb oddi wrth

BERYL A BARRY WALKER

a staff y

SNOWDONIA

PARK HOTEL

WAUNFAWR

Ffôn: 218



Cyfarchion y tymor gan

**Westy
PLAS-Y-COED**

Betws Garmon,

Ffôn: Waunfawr 284



- Ar agor bob dydd
- Trwydded Lawn
- Bwydydd Restaurant a Bar

Nadolig
Llawen
a Blwyddyn
Newydd dda



i chwi oll oddi wrth

**David, Bridget
a Nikey Ryan**

**SWYDDFA'R
POST**

**Waunfawr
Ffôn 651**

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer diweddaraf,
sydd ar gael.

Am fanylion cysylltwch â



**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

GERAINT OWEN

Gosodwr Carpedi
(A phob math o
loriau)

Cil-y-mynydd

Waunfawr

Rhif ffôn:

Waunfawr 552

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth: Mr a Mrs Owen

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

HELPU PLANT MEWN ANGEN



'Roedd dydd Sadwrn, Tachwedd 23 yn ddiwrnod prysur ofnadwy i dri o fechgyn y pentref, sef Huw Gwilym, Llŷr Jones a Gerallt Jones. Bu'r tri yn garej Gwalia, Caeathro, yn golchi 'windscreens' ceir er mwyn codi arian i'r gronfa. Casglwyd £106 a hoffai'r hogiau ddiolch yn fawr iawn i Mr Glyn Evans am adael iddynt ddefnyddio'r garej ac am ei rodd werthfawr. Diolch hefyd i bawb a'u cefnogodd yn y garej ac yn y Waun. Diolch yn fawr iawn. A diolch i chi hogia' am roi eich dydd Sadwrn i helpu'r apêl.

Y Clwb 300: Dyma rest o enillwyr y Clwb am fis Tachwedd — 1, £40: Carys Jones, 4 Bryn Golau; 2, £25: Barry Walker, S.P. Hotel; 3, £10: Mr a Mrs D. Rowlands, 5 Bryn Golau.

Yr Urdd: nos Fercher, Rhagfyr 4, cynhaliwyd noson o ganu carolau yn y Ganolfan yng nghwmni plant yr urdd. Arweiniwyd y canu cynulleidfaoel gan Mr John Jones, Hafod, Waunfawr a Mrs Jina Keller fu'n arwain parti canu'r plant. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddynt, ac i Mrs Eryl Thomas am hyfforddi'r plant yn yr ysgol. Diolch hefyd i'r cyfeilyddion ifanc, sef Bethan, Catrin, Elin, Manon, Llio, Caroline, Alaw, Kirsty a Ffiion. Cafwyd noson gartrefol nos Fercher, Rhagfyr 11, yng nghwmni Mrs Gill Brown, a ddangosodd i'r plant sut i baratoi danteithion ar gyfer y Nadolig. Cafwyd disgo i gloi'r tymor ar nos Fawrth, Rhagfyr 17.

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan, Ionawr 8, am 6 o'r gloch. Bu'n rhaid gohirio cyfarfod Tachwedd 27 o'r Urdd, felly, fe fydd Mr Leslie Jones yn ymweld a'r plant ar Ionawr 22.

Pwysig — amser newydd: Ar ôl y Nadolig fe gynhelir yr Urdd yn y Ganolfan am 6.30 ar nosweithiau Mercher — y tymor i ail ddechrau ar Ionawr 15.

Yr Ysgol Feithrin: Cynhaliwyd Ffair Nadolig ar nos Wener, Tachwedd 29, yn y Ganolfan. Diolch i'r pwyllgor a'r rhieni am gynorthwyo i wneud y noson yn llwyddiant. Gwnaethpwyd dros £150 o elw i'r Ysgol Feithrin. Enillydd cystadleuaeth enwi'r Tedi oedd Mrs Parry, Bro Waun. Raffl: 1, Shirley Parry, Pant Waun; 2, Jean Jones, Llwyn Onn; 3, Janet Greasley, Tŷ Hen; 4, Irene Roberts, Pant Teg. Cynhaliwyd parti'r plant ddydd lau, Rhagfyr 19, gyda Siôn Corn yn ymweld â'r plant. Ymunodd plant Cylch Ti a Fi yn y parti. Fe feydd yr ysgol yn ail ddechrau yn y flwyddyn newydd ar Ionawr 6.

Cylch Ti a Fi dyna enw newydd ar y cylch 'Mam a'i Phlentyn' sydd o dan ambarel y Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae'n cyfarfod yn y Ganolfan bob yn ail bawn Llun am 1.30 o'r gloch.

Cewch banded a bisged a diod o oren i'r plant am 50c. Fe fydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar bawn Llun y 6ed o Ionawr. Edrychwn ymlaen i weld hen ffrindiau ac i gwrdd a rhai newydd yn 1992. Os am ragor o fanylion ynglŷn â'r Ysgol Feithrin neu'r Cylch Ti a Fi, cysylltwch â Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon, Waunfawr.

Llongyfarchiadau — i Maureen a Gwilym Hughes, Bryn Peris, ar eu priodas ddiwedd Hydref.

— i Mr Kenneth Leathley Jones, Cefn y Waun, ar ei benodiad yn Brifathro Coleg Trydyddol Meirion-Dwyfor.

— i Mrs Parry, Clydfan, ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Cerys Ann, i'w hwyr Dylan a'i wraig Sue.

Dymuna Dylan a Sue ac Elwyn a Mary, ddiolch i bentrefwyr y Waun am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch a'u hwyres fach.

Adref o'r Ysbyty: Croeso adref o'r ysbyty i Mrs M. A. Owen, Bod Afon.

Diolch: Dymuna Mrs Owen, Bod Afon, Stad Tŷ Hen, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am bob caredigrwydd tuag ati yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mrs I. Jones, Dychwelfa, a Mr J. Overy, Pant Waun, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Hefyd anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai o'r pentref sydd mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Gwyneth Griffith, Stad Tref Eilian, sydd wedi gorfod wynebu profedigaeth arall pan fu farw ei brawd yng Nghaernarfon.

Marwolaeth: Ychydig wythnosau ar ôl dathlu ei phenblwydd yn gant oed bu farw Mrs Annie Williams, Gwynllys (gynt). Cydymdeimlwn â'r teulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth.

Dathlu Penblwydd: Llongyfarchiadau mawr i Mr George Taylor, Baladeulyn, ar ddathlu ei benblwydd yn 93 oed.

Dymunkadau gorau i Alan Jones, Bryn Menai, a Kevin Tame, Sŵn y Dail, a fu'n dathlu cyrraedd eu deunaw oed.



Mae

**LLEUFER A NELMA
PRITCHARD**



CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

yn dymuno diolch am bob
cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

**Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
dda oddi wrth

**DAVID
CLOUGH**

**Ynysoedd
WAUNFAWR
Ffôn: 282**

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
Estimates am ddim

Mae

**Liz a John
Whitehead**



**SIOP CHIPS
WAUNFAWR**

Ffôn: 683

yn dymuno Nadolig
Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb yn y pentref



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth bawb yn

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Symud Tŷ: Mae sawl teulu yn y pentref wedi newid aelwyd yn ddiweddar. Dymunwn pob hapusrwydd ichi yn eich cartrefi newydd.

Diolch: Dymuna Alan ac Anne Addison, Storfa Tŷ Newydd, ddiolch i'w cwsmeriaid a gyfrannodd i'w casgliad i Blant Mewn Angen. Anfonwyd £101.10 i'r gronfa.

Llongyfarchiadau i'r grŵp Kareoke y Clwb Ieuencid ar eu llwyddiant yn y cystadleuaeth canu Kareoke i glybiau ieuencid.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Mrs Carol Williams, Angorfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei llys-dad.

Yn rhifyn ola'r flwyddyn o *Eco'r Wyddfa* dymunwn **Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda** i bawb.

Gwella Ffordd

Mae'r gwaith o wella'r ffordd-gyswllt beryglus rhwng Llanrug a Waunfawr drwy Ceunant i dderbyn blaenoriaeth uchel yn ôl gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Cynghorydd Eurig Wyn o Waunfawr.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn, sy wedi bod yn ymgyrchu am sawl blwyddyn am wella'r ffordd hon: 'Mae sawl damwain ddrwg wedi digwydd arni yn y gorffennol. Mae'n ffordd bwysig, yn enwedig yn sgîl y drafnidiaeth gynyddol sy'n debyg o fynd ar hyd iddi ar ôl agor ffatri newydd Euro DPC yn Llanberis. Mae'n newyddion calonogol iawn.'

Mae £25,000 wedi ei glustnodi gan Gyngor Sir Gwynedd ar gyfer y gwelliant, ac yn ôl y Cynghorydd Wyn bu'n rhaid i'r cynllun frwydro yn erbyn cynlluniau eraill o bob rhan o Wynedd.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Llongyfarchiadau: i Ceri Ann Roberts, 10 Erw Wen, ar ei llwyddiant yn yr Wyl Gerdd Dant; i Dilys a Bryn Griffiths, Delfryn, ar ddathlu 30 o flynyddoedd priodasol yn ddiweddar; i Berwyn Roberts, Sea View, ar ei benblwydd yn 18 oed.

Cydymdeimlwn â Mrs Mair Jones, Bryn Mair, ar farwolaeth ei mham yn ddiweddar.

Cyngor Cymuned (mis Tachwedd): Gwnaethpwyd y penderfyniadau canlynol sy'n berthnasol i'r pentref — (i) prynu sedd newydd ar gyfer sgwâr y pentref; (ii) fod y gwaith o dorri'r tyrfiant ger 1 Bryn Gof wedi ei gwblhau; (iii) rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer arwydd ger Plas Treflan; (iv) fod y Cyngor Sir wedi cytuno ar waharddiad aros ger cyffordd canol y pentref; (v) rhoddwyd £50 i Bwyllgor Cae Chwarae a £150 at Gapel y pentref er mwyn glanhau'r fynwent; (vi) cwyno at Gwmni Crosville am y ffaith bod bysys Waunfawr heb ymddangos ar nifer o foreau ym mis Hydref. Nid oedd cynrychiolaeth o

Ward Caeathro yn y cyfarfod oherwydd gwylliau'r unig aelod.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr trafodwyd nifer o faterion a oedd yn effeithio ar Gaeathro: nid oedd ymateb wedi dod oddi wrth Gwmni Crosville. Gobeithir y bydd Express Motors yn dechrau cystadlu ar y llwybr; rhoddwyd £100 ym mis Hydref yn benodol ar gyfer torri'r rhan o'r fynwent rhwng y Capel a Hafan; rhoddwyd caniatâd cynllunio gan Gyngor Bwrdeistref Arfon i wella'r mynediad i Landŵr; penderfynwyd mai'r llwybr cyhoeddus cywir o Benrhos i Blas Treflan (rhif 32) oedd yr un rhwng Maes-y-coed a Bryn Eglwys (dros y gamfa dros y ffordd i lwybr Llwyn Alice) a nid rhwng Bryn Eglwys a Hafod Wen; gan fod y gwaith o ail godi wal Glangwna ar hen lôn Pontrug wedi bod ar stop ers tipyn, penderfynwyd pwyso i orffen y gwaith.

NADOLIG LLAWEN i holl ffrindiau'r *Eco* yng Nghaeathro.

BUSNESA?

Oes diddordeb gyda chi ym myd busnes? Hoffech chi sgwennu straeon i'r papur hwn am fusnesau lleol sydd yn nwylo siaradwyr Cymraeg? Ydi chi'n ffansio bod yn 'ohebydd busnes' y papur? Mae Menter a Busnes yn gwahodd y papurau bro i ddanfôn straeon am fentrau lleol atynt bob mis ar gyfer cystadleuaeth **MENTER Y MIS** ac i hwyluso'r gwaith o gasglu'r deunydd a sgwennu stori, byddant yn cynnig cyngor a chymorth yn ystod gweithdy undydd ym mis Ionawr. Bydd Menter a Busnes yn noddii'r straeon sydd yn ymddangos yn y papur hyd at bum stori'r flwyddyn. Felly os oes dipyn o amser rhydd gyda chi, ac awydd i wneud rhywbeth newydd a gwahanol, cysylltwch â'r golygydd, neu gyda **Siân Johnston, Menter a Busnes, Parc Gwyddoniaeth, ABERYSTWYTH SY23 3AH.** Ffôn: Aberystwyth (0970) 625561 neu Caerdydd (0222) 230765.



**CYFARCHION
NADOLIG O
GAEATHRO**

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn; Caernarfon 2072

GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL

**NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB**



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
**MHARC GWYLLIAU
GLAN GWNA**
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 3456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



YSTORFA MINFFORDD STORES
**CAEATHRO
GAERNARFON**
YR HEN BOST 1887-1987 AR TYRPEG 1817-1886



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
bawb oddi wrth RICHARD, MARIA a HARRIET
Nwyddau Groser • Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GWALIA GARAGE, CAEATHRO**

**Ffôn:
673096**



M. O. T. • TRWSIO CEIR • GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR

CYFARCHION
NADOLIG

BETHEL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth **Dic Roberts**



BETHEL



SCAFFOLDING

BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH

MICHAEL A CHRISTINE

TREFLYN STORES

BETHEL



Diolch i bawb am eu
cefnogaeth yn ystod y
flwyddyn



CYFLENWYR PORTHIAN

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO


Y Fachell

Llanddeiniolen

Ffôn:

Port Dinorwig 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



CARTREF PRESWYL
SANT TEILO



SARON

BETHEL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
bawb oddi wrth

yr holl breswylwyr, Mrs Bilbie a'r staff
Ymholiadau: Port Dinorwig 670353

Y BEDOL



FINE TRADITIONAL ALES

BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda i'n cyfeillion a'n
cwsmeriaid oll oddi wrth
Kevin a Carolynne
Ffôn: Port Dinorwig 670155

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST



BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD,
MELYSION, PAPURAU NEWYDD A FIDEOS



Beth am ddysgu dreifio gydag



Ysgol Yrru

BETHEL

42 Bro Rhos, BETHEL
Portdinorwig 671009

Dymuna Eirlys a Dic Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl gwsmeriaid a ffrindiau


Nadolig Llawen i bawb oddi wrth

GWILYM H. WILLIAMS
a'r teulu

BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD
BETHEL

Ffôn: Felinheli 670786

Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn a aeth heibio
Dymuniadau gorau am
y Flwyddyn Newydd



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Cydynddeimlo: Ddydd Iau, Tachwedd 28, bu farw Mrs Megan Davies, 4 Y Ddôl. Estynnir pob cydynddeimlad â Mr Davies a'r teulu yn eu profedigaeth.

Yr Urdd: Fe ddaeth gweithgareddau'r tymor i ben gyda pharti a disggo. Bydd y sesiwn nesaf yn cychwyn ar nos Iau, 16 Ionawr 1992, ar yr amser arferol yn yr Ysgol.

Bu rhai o blant Safon 4 sy'n aelodau o'r Urdd yn cymryd rhan yn Seremoni Tlws yr Ifanc yn yr Eisteddfod Bentref a gynhaliwyd yn ddiweddar. Hwyl oedd aelodau'r Orsedd. Diolch iddynt am wneud eu gwaith mor urddasol.

Bu rhai aelodau hefyd yn cymryd rhan yn y Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd ym Mangor. Daeth tîm cyfnewid yn chweched yn y ras derfynol. Cyrhaeddodd Nia Watkin ddwy ras derfynol, nofio pili pala a nofio cymysg a daeth yn chweched yn y naill a phedwerydd yn y llall. Llonyfarchiadau i bawb!

Chwaraeodd y tîm pêl-rwyd yn erbyn Adran Tref y Gelli ac enill o 10 gôl i 5. Sgoriodd Bethan Fôn 6 a Llinos Mair 4. Da iawn genod.

Y Neuadd Goffa: Enillwyr y Clwb 200 am fis Tachwedd oedd £20: Mr John Williams, Tyddyn Difyr (104); £10: Mr Danny Humphreys, Is-Helen (225); £5 yr un i Mrs Beti Owen, 2 Tan y Cae; Miss Wenna Williams, 8 Stâd Eryri; Mrs Sheila Roberts, 12 Tan y Buarth; Miss Nancy Humphreys, Ty'n Rhos; Mr J. E. Hughes, Bryn Ogwen a Mrs S. Rowbotham, 8 Tan y Cae.

Clwb y Rhos: Yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Clwb cafwyd noson ddifyr o gwis dan ofal Mr Richard Lloyd Jones. Diolchwyd i Richard gan Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd.

Eisteddfod y Pentref: Cynhaliwyd yr eisteddfod i'r plant a'r ieuenctid yng Nghapel Cysegr ar nos Wener, Tachwedd 29, 1991. Y beirniad oedd — Adrodd: Mr William Lloyd Davies; Cerdd: Mrs Eryl Thomas; Llenyddiaeth: Mrs Mair Parry; Arlunio: Mr Alan Ginsberg. Llywydd y noson oedd Mr Irfon Owen. Yr arweinyddion oedd Mrs Mair Read a Mr Geraint Elis a'r cyfeilyddion Miss Manon Gwynedd a Mrs Glenys Griffiths. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogod yr Eisteddfod ac am bob cymorth.

Dyma restr o'r buddugwyr:
Adrodd. dan 4 oed: 1. Manon a Rhys; 2.

Angharad. 4-6 oed: 1. Kelly; 2. Lois ac Emma; 3. Ffion a Sam. 6-8 oed: 1. Gwenno; 2. Kevin ac Enlli. 8-10 oed: 1. Elen; 2. Nia; 3. Aled. 10-12 oed: 1. Eleri; 2. Caryll; 3. Rebecca. **Parti dan 8 oed:** 1. Parti Gwenan; 2. Parti Owain; 3. Parti'r ddwy Bethan. **Parti dan 12 oed:** 1. Pawb yn barod; 2. Pavarotis; 3. Parti Anest ac Ifan. **Tlws Adrodd dan 12 oed:** Eleri Robinson. **12-15 oed:** 1. Llinos Morris. **15-18 oed:** 1. Menna D. Williams. **Parti oedran uwchradd:** 1. Parti Lowri. **Llenyddiaeth. Ysgol Gynradd Bl. 1 a 2:** 1. Manon; 2. Nia a Gwen; 3. Sarah ac Arfon; 4. Emma, Ffion, Byron, Meirion. **Bl. 2 a 3:** 1. Enlli; 2. Gemma; 3. Sarah. **Bl. 3 a 4:** 1. Rhian Williams; 2. Gwenan Heledd; 3. Sarah Jones. **Bl. 4 a 5:** 1. Geraint Edwards; 2. Elen Robinson; 3. Deiniol Davies. **Bl. 6:** 1. Anest; 2. Meilyr; 3. Siôn. **Dan 18 oed:** 1. Wenna Williams; 2. Lynn Roberts a Sioned Owen.



Wenna Williams enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Bethel.

Tlws llenyddiaeth dan 18 oed: Wenna Williams. **Agored. Llinell Goll:** 1. Mrs M. G. Williams; 2. Mrs Rita Williams; 3. Mr Goronwy Jones. **Cerdd Gocos:** 1. Mr Goronwy Jones. **Brawddeg:** 1 a 3: Mrs Rita Williams; 2. Mr Dafydd Williams. **Carol:** 1 a 2: Mrs M. G. Williams; 3. Mr Goronwy Jones. **Arlunio — dosbarth derbyn Ysgol Gynradd:** 1. Tomos; 2. Rhianwen; 3. Meirion. **Cerdd. Dan 4 oed:** 1. Rhys; 2. Angharad a Manon. **4-6 oed:** 1. Ffion; 2. Lois; 3. Emma; 4. Rob, Sam, Kelly, Gwenan. **6-8 oed:** 1. Iolo; 2. Gwen; 3. Gwenno a Paul. **8-10 oed:** 1. Meleri; 2. Rhian; 3. Nia. **10-12 oed:** 1. Bethan Fôn; 2. Bethan Williams; 3. Rebecca ac Anest. **Piano dan 9 oed:** 1. Nia; 2. Rhian; 3. Gwenan ac Ifan. **Piano dan 12 oed:** 1. Bethan Williams; 2. Bethan Fôn; 3. Gwen ac Anest; 4. Caryll. **Unrhyw offeryn heblaw piano, dan 12 oed:** 1. Dewi. **Tlws Cerdd dan 12 oed:** Bethan Fôn Jones. **Parti dan 8 oed:** 1. Parti Gwenan; 2. Parti Owain; 3. Parti Katy. **Parti dan 12 oed:** 1. Cowns Cymru; 2. Parti Bethan; 3. Pavarotis. **Parti Oedran Uwchradd:** 1. Parti Glenys.

CYFARCHION Y NADOLIG: Mae preswylwyr Cartref Sant Teilo yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau a chyfeillion.



Bethan Fôn ac Eleri Rhiannon — enillwyr y perfformiadau cerddorol ac adrodd gorau.

YSGOL BRYNREFAIL RHAGLEN HYFFORDDI CHWARAEON Ionawr — Ebrill 1992

1 Aerobics	Merched	Llun	7.00-8.00
2 Pêl-rwyd	Plant	Mawrth	4.00-5.00
	Blwyddyn 3/5/6 a 6 Cynradd		
3 Badminton	Plant Ysgol Uwchradd	Mawrth	3.30-4.30
4 Tennis Byr	Plant	Iau	4.30-5.15
	Blwyddyn Derbyn 1 a 2 (oed 5, 6, 7)		5.15-6.00
5 Gymnasteg	Plant Ysgol Gynradd	Gwener	4.00-5.00 5.00-6.00

FFURFLEN GAIS

Enw _____

Cyfeiriad _____

Rhif Ffôn _____

Dyddiad Geni (plant yn unig) _____

Ysgol _____ Dosbarth _____

Anfonwch ffi o £5/£6/£10 i'r Prifathro, Ysgol Brynrefail, Llanrug. Sicciau yn daladwy i Ysgol Brynrefail.

ER GWYBODAETH

- Y rhai cyntaf i ymateb gaiff le ar y cwrs.
- Mae gwisgo'n briodol yn hanfodol.
- Mae rhaid cael rhif rhesymol i redeg y cyrsiau.
- Bydd y dosbarthiadau yn rhedeg am 12 wythnos yn dechrau Llun, Ionawr 13, 1992 a gorffen wythnos 6 Ebrill 1992.
- Ni fydd gwers yn ystod hanner tymor (wythnos yn dechrau 17 Chwefror).
- Rhaid dychwelyd y ffurflen gais yn ôl erbyn Llun, Rhagfyr 16, 1991.



Aelodau yr Urdd a ffurfiodd yr Orsedd.

Mae
KEVIN A BRIAN
a Staff
TAFARN
GORS BACH
LLANDEINIOLEN
yn dymuno Nadolig
Llawn a
Blwyddyn
Newydd dda
i'n gwsmeriaid
hen a newydd



Cofio Mat Pritchard

Unig blentyn William John ac Annie Pritchard, Stryd Newton, Llanberis. Ysgol Dolbadarn, Llanberis, Ysgol Brynrefail a Choleg y Brifysgol Bangor. Mae yna le gwag yn ardaloedd bro'r Eco, Pen-y-groes a Chaernarfon heb Mat.

Dwy deyrnged o LLEU:

R. Gordon Williams — cyd-athro
'Roedd yn athrawes ymroddedig, yn rhoi cant y cant yn ei gwaith, a disgwyliai hynny gan ei disgyblion hefyd. Gwnai Hanes yn ddifyr, a chyfnodau a chefnidir oedd yn bwysig iddi ac nid dyddiadau. Roedd ganddi dafod deifiol. Rhaid oedd i bob merch wisgo yn gymer, ac roedd athrawesau a disgyblion yn cael eu trin yr un fath.

Yn union o'r Coleg apwyntiwyd hi yn athrawes yn ei hen ysgol, Brynrefail, i ddysgu Ffrangeg, o bob pwnc. Felly, aeth i Ffrainc am rai wythnosau i ddysgu ei hun. Ni bu yn hir ym Mrynrefail cyn symud i Ysgol y Sir, Pen-y-groes, i ddysgu ei hoff bwnc, Hanes, ac yno y bu nes ymddeol.

Bellach mae'r llais deifiol a'r waedd wedi distewi, ond erys atgof hoffus am un a fu'n athrawes drylwyr a'i dylanwad yn drwm ar gannoedd o blant Ysgol Pen-y-groes.

Alwyn Fleming — cyn-ddisgybl

Doedd dim ots os byddech wedi gadael yr ysgol ers blynnyddoedd, mi fedrai Miss Pritchard ddal i frathu. Roedd gan y Dr John Gwilym Jones stori amdani'n dod wyneb yn wyneb â chyn-ddisgybl iddi oedd bellach yn brifathro, a hwnnw'n cwyno wrthi am safon Saesneg y plant, fod eu hanner nhw heb Lefel-O yn y pwnc. A'r ateb yn dod fel fflach: 'Mae'ch cof chi'n amlwg yn fyr iawn Mr ____.'

Mi fydd Arwel (Hogia'r Wyddfa) wrth ei fodd yn sôn am y Miss Pritchard hwyliog honno oedd yn gymdogaes mor garedig wrtho yn Llanberis.

Ac mi ddois innau i adnabod y wraig honno hefyd dros y blynnyddoedd, yn arbennig drwy'r ddrama a chynnyrchiau'r Dr John Gwilym Jones. Mi wnaeth ran y Nain yn 'Ac Eto Nid Myfi', a Modryb Meri yn 'Yr Adduned' yn rannau personol iddi hi ei hun bron. Roedd yn gallu cyfleu rhyw anwylydeb a direidi yn ogystal â miniogrwydd yn y cymeriadau i'r graddau na fedrech lai na meddwl mai hi oedd gan yr awdur mewn golwg wrth eu creu. Ar yr un pryd, roedd yn agoriad llygaid i mi weld y ddynes hon, 'roeddwn i wedi ei hystyried ar hyd fy oes fel y person mwyaf hyderus y gwyddwn i amdani, yn fwndel o nerfau cyn mynd ar lwyfan, ond cyn gynted ag yr ymddangosai o flaen cynulleidfa, fyddai dim arlliw ohonynt.

Yr oedd maint y gynulleidfa yn yr Amlosgfa, greda i, yn arwydd teilwng o'r parch a'r cyfeillgarwch a deimlid ati yn y cylchoedd y bu'n troi ynddyn nhw, gan gyd-athrawon, cyn-ddisgyblion a chyfeillion. Ysgwn i beth fyddai ganddi hi i'w ddweud am y fath gynulliad?

Mi oedd Mat yn ddigri, yn gomic go iawn, a ninnau ei chyfeillion yn cael hwyli hefo hi.

Mae ein cylch swpera ni yn mynd yn llai.

PRINDER YNGHANOL DIGON

Nid oes neb ohonom yn berffaith
Ond dylem ofalu cyn cychwyn ar daith
Bod dau beth yn angenrheidiol
Gwybod y ffordd, a bod yn y car ddigon o betrol.

Digwyddodd yn ddiweddar i wraig o ardal Deiniolen
Tra'n dychwelyddra o Lanberis a Bethel ac yn mwynhau busgeden
Nogiodd y car, a daeth iddo rhyw dwrw ysgytiol
O brofiad gwyddai ei fod wedi mynd allan o betrol.

Mae o wedi digwydd i gannoedd erioed meddech chwithau
Ydi siwr, ond nid gyda'r un canlyniadau
I'r wraig yma yr oedd yn brofiad diflas anfaddeuol
Ei char hi'n sych, a hithau'n gwerthu petrol! Pwy?

H.J.



EISTEDDFODAU

Y mae Eisteddfodau'n gwlad yn amrywiol
Gan ddechrau gyda'n prifwyl — y Genedlaethol
Rhai o nodweddion hon yw ei bod yn symudol
Ac uniaith Gymraeg dyna'r ddigyfnewid reol.

Cyffelyb eu rhaglen yw'r rhai Taleithiol
Eisteddfod Môn, Dyffryn Conwy a Phonrhydfendigaid
Dechra nos Wener, a thrwy ddydd Sadwrn fel rheol
A chystadlu brwd gan lu o amaturiaid.

Yn Eifionydd ac Arfon ceir amryw tebyg y gellir eu henwi
Rhaid yw enwi Eisteddfod enwog Gwaun Gynfi
A phwy ond y mwyaf di-awen
Na's gwefreiddiwyd yn Eisteddfod Llangollen.

Unigryw a rhyngwladol ei rhaglen
Uno'r gwledydd mewn cfi yw ei diben
Bydded iddi trwy ddawns a llachar flodau
Gytgord pur mewn soniarus nodau.

Mae i ambell Eisteddfod nodweddion arbennig
Yn sicr y mae felly yn Eisteddfod Bentref Dinorwig
Ceir yn hon awyrgylch o hiwmor gwarantedig
A lu o garedigion brwdfrydig.

Nid oes ynddi rhagbrofion maith a diflas
Dim ond cystadlu brwd yn aml rhwng perthynas
Mewn canu ac adrodd, sgetsus, unawd crib a phapur
Côr garglo, dyma chi glasur o antur.

Chewch chi ddim arian, cadair na choron
Ond cewch gwmni, paned, a chwerthin ddigon
Pa le gwell am gyweirnod i dymor y Nadolig
Na boliad o chwerthin iach, yn Eisteddfod Bentref Dinorwig.

H.J.

**ERYRI ORGANIG**

LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaith ★ Bwydydd Hylif ★

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy ★

Archebion Post 'Garddio law yn llaw â natur'

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

LLYFRAU

Dyma'r 'diweddaraf' o Wasg Gwynedd:

Sgyrsiau Rhodri Prys Jones. Casgliad o sgyrsiau'r diweddar Rhodri Prys Jones; sgyrsiau byrion a ddarlledwyd yn y 'Newyddion Da' ar Radio Cymru. Pris: £4.00

Dyn y Bysys gan Stan Jones. Atgofion gŵr o Llyn a dreuliodd ddeugain mlynedd a mwy 'ar y bysys'. Pris: £3.50.

Cerddi Anita Griffith. Y casgliad cyntaf o gerddi'r wraig o Roshirwaun; cerddi sy'n gyfuriog o awelon Pen Llŷn. Pris: £4.00.

Dyddiadur Dychwel gan Glennys Roberts. Dyddiadur dychmygol gwraig weddw yn dychwelyd o Loegr i gartref hen bobl yng Nghaernarfon. Pris £3.50.

Cilmeri a Cherddi Eraill. Hwn yw trydydd casgliad o gerddi Gerallt Lloyd Owen. Aeth ugain mlynedd heibio er pan gyhoeddwyd ei gasgliad diwethaf *Cerddi'r Cywilydd*. Bydd gwrandawyr 'Talwrn y Beridd' — a'r beirdd ei hunain — yn awchu am gael cyfle i farnu gwaith y Meuryn! Pris: £5.50.

Cae Marged (Cyfres y Cewri 9). Hunangofiant y darlledwr a'r cymeriad adnabyddus, Lyn Ebenezer. Pris: £5.50.

Ac o Wasg Dwyfor:

Y Corn Mawr a Nodau Eraill. Cyfrol arall o ddeg ar hugain a mwy o sgyrsiau radio gan Gruffudd Parry — un o enwogion llenyddol Dyffryn Nantlle. 'Cawn yma flasau o atgofion difyr ac ar adegau . . . beth o'i resymegu manwl wrth drafod rhai pynciau yn gampweithiau dychanol. Un o'r cyfrolau prin, bellach, sy'n dangos meistrolaeth mynegiant wrth sugno o rin a grym hen, hen iaith.' Pris: £3.00.

Adnoddau Cristnogol

Y mae yna lyfrau/fideos Cristnogol newydd yn cael eu cyhoeddi yn gyson, sy'n fuddiol mewn ysgol, Ysgol Sul, ac ar yr aelwyd. Yn ddiweddar cyhoeddwyd nifer o ddeunydd newydd, megis:

BEIBL I BLANT mewn 365 o Storiâu. Beibl newydd, safonol, ar gyfer plant, mewn lliw llawn.

GRYM MAWL. Llyfr canu newydd, yn cynnwys tua 200 o emynau a chytganau newydd sbon, ar gyfer yr eglwys neu'r ysgol.

LLIWIO'R GAIR. 6 cyfrol o lyfrau lliwio, cysylltu'r dotiau, ar gyfer y plant.

BIBOBYB. 10 o fideos Beiblaidd ar gyfer plant, ar ffurf cartwnau (copïau i'w benthyg yn unig).

CYHOEDDI'R GAIR. Cyfrol o wasanaethau ar gyfer plant ac ieuencid.

Ar gael o'ch siop lyfrau leol, neu os mewn anhawster gan Gyngor Ysgolion Sul, Canolfan Addysg Grefyddol, Ffordd Deiniol, Bangor.

DRAENOG

Fel arfer y llwynog sy'n dwyn adar amaethwyr y fro — ond — llygoden fawr oedd yn dwyn bwjis dyn llefrith o Fethel. Roedd ei 40 bwji wedi mynd i lawr i 4 cyn iddo sylweddoli fod rhywun yn dwyn ei adar!



CHWILOTA

'DOLIG ERSTALWM



Ganrif union yn ôl, beth tybed oedd y digwyddiadau a hawliai sylw'r cyhoedd yn y fro hon? Mae'n ymddangos mai damweiniau ac adloniant oedd dau brif destun y dydd o ganol Tachwedd hyd ddiwedd Rhagfyr 1891 — o leiaf, dyna oed yn mynd â bryd gohebwy swyddogol ac answyddogol *Yr Herald Cymraeg*.

Tua diwedd Tachwedd bu damwain yn y Gilfach Ddu pan fethodd y brêc ar 'run' o wagenni gwag ddiwedd diwrnod gwaith. Malwyd wagenni a rhai adeiladau wrth i'r cyfan chwalu'n erbyn ei gilydd wedi i'r braciwr, William Davies ddianc â'i fywyd ar ôl iddo fethu stopio'r 'run'. Yn ffodus, ni chafodd neb anaf, ond diddorol nodi fod dwy wraig wedi dianc yn ddiogel o'r galanstra. Yn ôl yr adroddiadau, roedd y ddwy yn cael eu cario yng nghefn y 'run'. Beth tybed oedd y rheswm dros iddynt fod yno?

Ddiwedd y mis hefyd, cynhaliwyd eisteddfod am dair noson yn olynol yn y Capel Coch, Llanberis. Mae'n amlwg mai eisteddfod capel oedd hon, ond iddi gael ei bedyddio ag enw mawreddog — Eisteddfod Dyffryn Padarn.

Ar ddechrau Rhagfyr, roedd pobl Ebenezer yn cefnogi buddgyngerdd i T. J. Griffith o Gwm y Glo. Pam tybed y cynhaliwyd ef yn Neiniolen? Yn ymddangos yn y cyngerdd roedd Côr Meibion Cwm y Glo a'r unawdydd, Eos Marchlyn (pw y oedd hwnnw?)

Ddechrau'r mis hefyd roedd Marchnad Anifeiliaid yn cael ei chynnal yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon — y sêl fawr cyn y Nadolig. Ond mae'n ymddangos mai cwyno am y prisiau isel oedd y mwyafrif.

Yn Llanrug bu damwain arall wrth i fab John Davies, Ceunant, ddisgyn oddi ar gar gwyllt rhwng Stabla a Phonrhythallt, ac i'r car gwyllt fynd dros ei goes. Cariwyd y bachgen adref yr holl ffordd i'r Ceunant gan ofni fod niweidiau drwg wedi digwydd iddo, ond mae'n ymddangos nad oedd yr un asgwrn wedi ei dorri, ac mai cleisio yn bur egr a wnaeth y bachgen.

Fel y nesai at y Nadolig, dwy 'stori' a gai sylw amlwg yn y wasg oedd marwolaeth ac angladd Huw Myfyr, gweinidog Dinorwig; ac arestio bachgen o Gwm y Glo yn Llundain ar gyhuddiad o ddwyn arian o'r Post. Roedd yr adroddiad am angladd Huw Myfyr yn nodweddiadol o adroddiadau'r cyfnod am fywyd, gwaith a marwolaeth gweinidogion, a'r cyfan yn llenwi colofn neu ddwy, gan gynnwys yr holl barchus gynulleidfa a ddaeth i dalu'r

deyrnged olaf.

Griffith William Ellis oedd y bachgen a arestiwyd yn Llundain, a hynny ar gyhuddiad o ddwyn £29 ac ychydig sylltau o Swyddfa Post a siop y Post yng Nghwm y Glo. Mae'n ymddangos fod y bachgen wedi cynllwynio i fynd i'r America at ei frawd, ond ei fod wedi ymweld â'i chwaer a oedd yn byw yn Llundain, ac i heddlu'r ddinas honno ei arestio a'i anfon yn ôl i Gaernarfon i sefyll ei brawf.

Yn ystod wythnos y Nadolig bu lliawso fân ddamweiniau yn Chwael Dinorwig — y nifer mwyaf o fewn côf yn ôl rhai adroddiadau. Yna, dros y Nadolig ei hun, yn unol â thraddodiadau'r cyfnod, cynhaliwyd cyfarfodydd cystadleuol. Daeth tri o feibion y fro i amlygrwydd mewn tri maes: Henry J. Roberts, Fron Helyg, Llanrug, yn fuddfol ar yr unawd tenor mewn tri chyfarfod — Deiniolen, Pafiliwn Caernarfon a Phorthaethwy; G. R. Hughes, Bethel, yn ennill ar draethawd yn Ffestiniog; a Deiniolfryn o Ebenezer yn ennill Cadair Eisteddfod Rhiwlas ar bryddest 'Seren Bethlehem'.

Ac i ddiweddu'r flwyddyn, yng nghyfarfod llenyddol yr Ysgoldy, cafwyd dadl ar y testun 'A yw defnyddio tybaco yn bechod?' Testun amserol heddiw hefyd dybiwn i.

DRAENOG

Gobeithio y bydd yn Nadolig go lew i gilydd o Lanrug fel y gall brynu esgidiau i'w ferch a aeth i Glangwna yn ddiweddar yn ei slipars!

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri

am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener
10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922
neu Bangor 351427
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda i bawb

A 'DOLIG HEDDIW



Brawd a chwaer fach yn cael sgwrs hefo Siôn Corn yn Llanrug.

RHODDION

£10: Bob Hughes, Elizabeth,

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Beryl M. Jones yn eu profedigaeth o golli mam Mrs Jones, Mrs Ellen Jones, Hafodol, Ceunant. Cydymdeimlir hefyd â Mrs Megan B. Thomas, Llys Meredydd, yn ei phrofedigaeth hithau o golli ei gŵr.

Cyfarchion y Nadolig i bawb o ddarlennwyr yr Eco.

Griff ac Eluned a'u teuluoedd, Bangor.

£5: Naomi M. Griffiths, 6 Bro Rhyddallt, Llanrug. Mrs Jane Jones, Rhydfadog, Deiniolen. Dylan a Sue, Mary ac Elwyn Parry, Hengoed, De Cymru.

£3: Mrs Annie Williams, 1 Tai California, Clwt-y-bont, Deiniolen.

£2: Mrs M. A. Owen, Bod Afon, Waunfawr. Michael a Karen, 8 Cynfi Terr., Deiniolen. Eileen, Philip a Gwenda Moss, Porthaethwy. Melissa Ann Owen, 9 Cynfi Terr., Deiniolen.

£1: Einir Ann Williams, 21 Pentre Helen, Deiniolen. Marian Davies, Llanberis.

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
Tecwyn, Sue, Peter, Julie

TEX'S MEAT

Caernarfon 3693

Diolch am eich
cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym
mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS**
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 870563



Diolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn




ECO'R IFANC

Defnyddiwch y Lliwiau Priodol

1 = brown; 2 = melyn; 3 = oren; 4 = glas golau;
5 = brown golau; 6 = gwyn; 7 = pinc; 8 = glas tywyll.



EWCH O DDOT I DDOT I GREU PLU EIRA




EWCH O DDOT I DDOT YNA LLIWIWCH YR ANGEL



Enillwyr cystadleuaeth mis Rhagfyr yw:
CERI BRYN MORRIS, Tŷ Capel M.C., Dinorwig (4 oed)
ARWYN JONES, Isfryn, Cwm-y-glo (6)
CLAIRE LLOYD WILLIAMS, 9 Rhes Victoria, Deiniolen (6)
 LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH TRI.

PWY SY'N CYSGU YN Y GWAIR?



GOBEITHIO Y CEWCH CHI I GYD NADOLIG LLAWEN IAWN
 GYDA LLOND SACH O ANRHEGION
 a BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

LLIWIWCH Y LLUN



NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA



oddi wrth

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG



Ffôn: CAERNARFON 2156

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



Ashley a Carolyn
Wager

A STAFF

SIOP Y BONT
(SNOWDON STORES)
Pontrhythallt
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 4472



CYFARCHION Y TYMOR
A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion
Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH**

John, Sandra ac Ian Trevor a'r holl staff

Dewch i weld y car newydd

Peugnot 106

car bach hynod o fawr

**GAREJ
HAFOD**

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

673372



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



Richard , Meirwen a Carolyn Y STORFA LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2790

Diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r
flwyddyn. Danfonir eich neges
am ddim at eich drws (ardal
Llanrug); Ffrwythau, Llysiau,
Blodau, Nwyddau ac ati



DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN
AM EICH CEFNOGAETH
FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN
A DYMUNWN FEL TEULU
NADOLIG LLAWEN I CHWI OLLA
DYMUNIADAU GORAU AM Y
FLWYDDYN NEWYDD



**SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 672445

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth
Elaine, Wendy, Vera, Lynette, Sarah a Debbie



LLANRUG, Ffôn: 2023

ORIAU AGOR
Mawrth 9 - 7.00
Mercher 9- 5.30
Iau 9 - 8
Gwener 9 - 8
Sadwrn 7.30 - 2

Dydd Mawrth a Dydd
Mercher i bensynwyr
Nos Fawrth i ddynion
Colurio ar gyfer
achlysuron arbennig

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

CYFARCHION LLANRUG



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772



Trin gwallt i
bawb o'r teulu
gan Jen



Ffoniwch neu
galwch i drefnu
amser

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING

32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i Bawb

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda



**EMYR
JONES**

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i
bawb



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
**PETE (COCH) A LIZ
GLYNTWROG
LLANRUG**

Yn awr o dan reolaeth newydd leol

Bydd croeso cynnes yma dros yr wyl

Y Nadolig Hwn defnyddiwrch
CABS LLANRUG



C'FON 5951

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

**Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos**



**J.H. a H. JORDAN & SON
SNOWDON GARAGE
LLANRUG**

Ffôn: CAERNARFON 3056



Nadolig llawen a blwyddyn
newydd dda oddi wrth bawb
yn y garej.

Gobeithio y cawn eich cefnogaeth
eto yn y Flwyddyn Newydd

Gwerthu ceir newydd ac ail-law

Trin cyrff - Sythu Chasis - Spreio - Unrhyw Waith
Mecanyddol - Atgyweirio - MOT - Gwasanaeth Torri
Lawr 24 awr

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng

**NGHARTREF
HENOED**



**Ffordd yr Orsaf
LLANRUG**

Ffôn: C'fon 4652



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda
oddi wrth

**BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 2422




**CARTREF
PRESWYL
LLYS EIDDON**

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau Ffôn: Caernarfon 4781

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

JONES A PITTS
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o
waith metel



**GWAITH BRYN AFON
LLANRUG**

CYFARCHION Y TYMOR oddi wrth

**GLYN ROBERTS
A'I FAB
DYNION GLO**

3 a 4
Tai Hermon,
LLANRUG



Ffôn:
5043
a 2125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

**PENBONT
LLANRUG**

Fe rown ichi ein croeso arferol
trwy gydol y flwyddyn newydd



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**BRYN A KATHLEEN
WILLIAMS**

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG

Ffôn: 77482



Gwneuthurwyr ffenestri, drysau ac
unrhyw fath o gynnyrch coed.
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth
arbennig i wneud iddynt bara.



DYMUNA
GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG


Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

**Y SGWÂR,
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:

Caernarfon 2898

(dydd)

Caernarfon 76285

(nos)



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



ODDI WRTH



BAWB YN

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

I gael bargeinion drwy'r flwyddyn
ymunwch â'ch Co-op lleol – y siop yr
ydych chi'n berchen arni.

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1991
DYMUNIADAU GORAU AM 1992



LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Plaid Cymru: Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn nos Fercher, Rhagfyr 4, yn yr Ysgol Gynradd. 'Roedd y plant yn falch iawn o weld Santa Clôs yno ac roedd yn hael gyda'i anrhegion fel arfer. Fe hoffai swyddogion y pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i aelodau a ffrindiau am y nwyddau i'r stondinau, am y rhoddion ariannol, am y gwobrau i'r raffl, ac am yr holl waith caled ar y noson. Gwerthfawrogir yn fawr gefnogaeth arferol yr ardalwyr i'r fenter. Diolch arbennig i ferched y gegin ac i ofalwraig yr ysgol am eu help parod a siriol. Enillwyr y raffl oedd — Hamper: Mrs Thwaite; basged o flodau: Grace Williams; Cyw lâr: Rhiannon, Nant y Glyn; crackers: Ann Lloyd Griffith; talc: Linda; basged: Olwen Hughes; bag llaw: Eirian Roberts; pwyau'r gacen: Rolant Wynne; gêm y wal frics: Helen Lewis; da-da mewn potel: Delyth Humphreys. Enillwyr Clwb 100 am fis Rhagfyr — 1, Mrs Inigo Jones; 2, Mrs Joan Griffith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa ar nos Fercher, Ionawr 15 pan ddaw y Cynghorydd Dafydd Orwig atom i roi sgwrs. Edrychwn ymlaen i weld nifer dda yn y cyfarfod. Anfonwn ein cyfarchion y tymor i'r holl o'n aelodau a dymuniadau am adferiad iechyd buan i'r rhai sy'n wael yn eu cartrefi ac yn yr ysbytai.

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth, Rhagfyr 3, cafwyd sgwrs ddiddorol ar hen lein y Cambrian gan y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Y llywydd oedd Mr Myrfin Jones, a thalwyd y diolch gan y Parchg John Morris. Daeth y tymor i ben hyd ddatlu dydd Gŵyl Ddewi ar y 4 o Fawrth yn Tŷ Golchi gyda'r Parchg H. Gwynfa Roberts yn ŵr gwadd.

Cydymdeimlir â theulu y ddiweddar Miss Eluned Parry, 17 Hafan Elan, yn eu profedigaeth o golli modryb.

Nadolig yn India: Fore Mawrth, Rhagfyr 10, hedfanodd Tudur Parry, Bryn Goleu, Stad Minffordd, i Bombay i dreulio ychydig fisoedd yn India cyn symud i Awstralia yn yr haf. Daeth ei gyfle ynghynt na'r disgwyl wedi iddo ennill £1,000 yn yr Adran Gelf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn. Dymunir pob bendith a llwyddiant iddo ef a'i ffrind Ella oddi wrth ei deulu a'i ffrindiau.

Yr Ysgol Gynradd:

Gala Nofio Genedlaethol: Cynrychiolwyd Eryri yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd gan nifer o ddisgyblion yr ysgol. Dyma'r canlyniadau — Eifion Jones, 1af nofio ar ei gefn; Emma Lloyd Jones, 3ydd cymysg unigol; tîm dan 10 oed: ras gyfnewid cymysg, 2il (Nicola, Meleri, Elin a Nia); ras gyfenwid rhydd, 2il (Nicola, Meleri, Elin, Siân). Llongyfarchwn yr holl gystadleuwyr. **Gwasanaeth Nadolig:** Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig y babanod ('Dilyn Ôl Troed') ar nos Wener, Rhagfyr 13. Cafwyd dau berfformiad yn neuadd yr Ysgol. Bu plant yr adran iau yn cyflwyno'u gwasanaeth hwy 'O'r Byd i Fethlehem', yn y Capel Mawr nos Fawrth, Rhagfyr 17.

Cwis Llyfrau: Daeth y Br Hywel James o Lyfrgell Arfon/Dwyfor i'r Ysgol bnawn dydd Mawrth, Rhagfyr 10, i holi aelodau dau dîm a gymerai ran yn rownd gyntaf Cwis Llyfrau Cyngor Llyfrau Cymraeg. Bu'r aelodau'n brysur yn astudio'r llyfrau gosod, a rhaid eu canmol am eu parodrwydd a'u hymdrech. Bydd rhai aros am y canlyniad. Aelodau'r timau oedd — dan 12 oed: Kelly Roberts, Emma Ll. Daves, Ruth Evans, Justine Williams, Claire Evans a Iona Williams; dan 10 oed: Siân Green, Elin Dafydd Owen, Sofka Morris a Heledd Angharad.

Cyfarfodydd yr Urdd: Cyfarfu aelodau'r Urdd ddwy waith yn ystod yr wythnosau diwethaf. Daeth y Br Leslie Larsen atom i ddangos tryloywderau o hen luniau o'r ysgol erstalwm ac i sgwrsio am yr hen

CLYCHAU'N CANU!



Iona Williams, Jackie Gibins, Gwennan Humphries a Kelly Roberts fu'n diddanu Merched y Wawr yn eu dathliad Nadolig.

drefn. Hefyd cawsom gwmni y Br Alan Bevan yn sôn am waith yr heddlu. Profiad diddorol i'r aelodau oedd rhoi olion eu bysedd.

Pantomeim: Manteisiwyd ar y cyfle i fynd â'r plant i fwynhau'r pantomeim 'Y Brenin Arthur a'r Blewyn Hir' yn Theatr Gwynedd, ddydd Mercher, Rhagfyr 18.

Pêl-rwyd yr Urdd: Llwyddiant fu hanes y genethod yn erbyn Ysgol Llandygái. Bu'n agos iawn, a'r sgôr oedd 6-5.

Pêl-droed yr Urdd: Gêm gyfartal, dwy gôl yr un, a gafwyd yn erbyn tîm Ysgol Llanllechid yn rownd gyntaf gornest bêl-droed (11-bob-ochr) yr Urdd, ond wedi chwarae ugain munud ychwanegol llwyddodd Llanrug i drechu'r ymwelwyr o 5 gôl i 2.

Wali 'yn ôl yn 'rysgol': Daeth uned ffilmio i'r ysgol er mwyn paratoi rhan o gyfres newydd 'C'mon Midffild'. Cafodd rhai o blant adran y babanod gwmni Wali tra wrth eu gwaith.

Ymweliad Bu'r babanod uwch yn ymweld â Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon ddydd Mercher, Rhagfyr 11.

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl rieni ac i gyfeillion yr ysgol. Bydd yr ysgol yn ail agor ddydd Llun, Ionawr 6ed.

Mae Mrs J. C. Williams, Bodfair, Llanrug, yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'i chydabod yn ardal yr Eco.

Dymuniadau gorau am Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth Mrs Gwladys M. Jones, Dalar Deg, Llanrug.



Plant y Gala Nofio wrth eu bodd gyda'u medalau.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS



DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus Mercher/lau 25, 26, Rhagfyr na Dydd Mercher 1 Ionawr



DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

HWYL YR EISTEDDFOD BENTREF



Cystadleuwyr rhwng 5 a 9 oed.

Eisteddfod Bentref: Unwaith eto eleni profodd yr eisteddfod a gynhaliwyd ar nos Fercher, Rhagfyr 4, yn y Ganolfan leol, yn llwyddiant diamheuol. 'Roedd y Ganolfan dan ei sang, gyda oddeutu 130 o bobl yn bresennol a chafodd pawb noson wrth eu bodd. Eleni roedd yr eisteddfod yn dathlu ei phenblwydd yn bump oed ac yr oedd y trefnwyr wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth yr union feirniad oedd wedi beirniadu yn yr eisteddfod gyntaf yn 1987. Yn naturiol hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Arweinyddion: Rennell Williams a Glyn Tomos. **Cyfeillyddion:** Annette Bryn Parri ac Olwen Roberts. **Beirniad — Llenyddiaeth:** Eiruw Wyn, Waunfawr; **Cerdd:** John Jones, Deiniolen; **Adrodd:** Meira Turner, Waunfawr; **Adran y Plant:** Valmai Davies, Dinorwig; **Coginio:** Gwynedd Owen, Dinorwig; **Celf a Chrefft:** A Dearn, Dinorwig.

Unawd dan 5 oed (hunan ddewisiad): 1, Heledd Bryn Parri; 2, Ynyr Gwyn Parri a Donna L. Phillips; 3, Lois Eifion Jones a Bedwyr Gwyn Parri. **Unawd 5-9 oed (hunan ddewisiad):** 1, Elfed Morgan Morris; 2, Bethan Wyn Jones; 3, Carol Ann Jones. **Unawd dan 12 oed (hunan ddewisiad):** 1, Jennie Lyn Morris; 2, Elfed Morgan Morris. **Unawd ar unrhyw offeryn (hunan ddewisiad):** 1, Jennie Lyn Morris. **Adrodd o dan 5 oed (hunan ddewisiad):** Heledd Bryn Parri; 2, Ynyr Gwyn Parri; 3, Ceri Bryn Morris. **Adrodd 5-9 oed (hunan ddewisiad):** 1, Elfed Morgan Morris; 2, Trystan Morris; 3, Kelly Jones. **Adrodd o dan 12 oed (hunan ddewisiad):** 1, Alaw Mari Huws; 2, Jennie Lyn Morris; 3, Elfed Morgan Morris. **Oedolion — Deuawd (hunan ddewisiad):** 1, Betty P. Roberts ac Evan B. Roberts; 2, Betty ac Olwen, Annette ac Elfed; 3, Eifion a Karen, Annette ac Evan. **Unawd (hunan ddewisiad):** 1, Betty Peris Roberts. **Parti**

Canu Cân hefo crib a phapur: 1, Parti Sardis; 2, Parti Chwain. **Dynwared eich hoff ganwr/gantores:** 1, Annette Bryn Parri; 2, Evan B. Roberts. **Grŵp Noson Lawen (i berfformio am tua 10 munud):** 1, Criw Dinorwig. **Côr Garglo:** 1, Côr Dŵr Cymru. **Llenyddiaeth — Gorffen Limrig:** 1, Alice M. Griffith; 2, Megan P. Morris a Hannah Roberts; 3, Megan P. Morris a Karen Jones. **Llinell Goll:** 1, Eifion Griffiths; 2, Megan P. Morris a Hannah Roberts; 3, Alice M. Griffith, Karen Jones, Hughie Jones, Teulu Tŷ Capel M.C. **Creu brawddeg o'r gair 'Mewnllifiad':** 1, Hughie Jones a Hannah Roberts; 2, Hughie Jones; 3, Elisabeth Jones. **Dewis anrheg Nadolig addas ar gyfer y bobl canlynol — John Major, John Elfed Jones, Walli Tomos, Meic Pierce, D. Elwyn Jones:** 1, Alice M. Griffith a Karen Jones. **Pa dri person yr hoffech eu gweld yn eistedd ar fainc newydd Dinorwig gyda'u gilydd, a pham?** 1, Alice M. Griffith; 2, Megan P. Morris. **Coginio, Merched — Torth Frith Bala:** 1, Gwen Griffith; 2, Meira Morris; 3, Margaret Williams. **Dynion — Scones Oren:** 1, Harry Edge; 2, Arwyn Jones a Dafydd Wyn Jones; 3, A. Dearn. **Plant o dan 12 oed — Bysedd Marshmallows:** 1, Elfed Morgan Morris; 2, Leah Edge a Ben Edge. **Celf a Chrefft — Cynllunio rhywbeth gan ddefnyddio boccs sgidiau:** 1, Elfed Morgan Morris. **Peintio ar lechen neu garreg ar y testun 'Byd Natur':** 1, Iwan Jones; 2, Dafydd Wyn Jones. **Cynllunio cerdyn ar y thema 'Heddwch':** 1, Arwyn Jones; 2, Iwan Jones; 3, Dafydd Wyn Jones. **Arlunio — dan 7 oed, 'Fy hoff ffrwyth':** 1, Stephanie Williams; 2, Llion Williams ac Aneurin Williams; 3, Gavin Roberts a Trystan Morris. **dan 9 oed, 'Fi fy hun — llun neu collage':** 1, Julie Jones; 2, Tom Lea; 3, Ffion Williams a Rhian Jones. **dan 11 oed, 'Maes yr Eisteddfod' neu 'Hwyl Haf':** 1, Joseph Anderson a Shaune Jones; 2, Jennifer Corless a Michael Iorwerth Jones; 3, Christopher Thomas a Lynne Roberts. **dan 14 oed, 'Unrhyw aelod o'ch teulu — taid, nain, mam, dad, brawd, chwaer:** 1, Jennifer Ann Corless.

Diolch i Mr Rennell Williams am y lluniau.



Pavarotti yn ei morio hi.



Margaret Williams a'i steil arbennig.

Awn i Fethlem: Cynhelir gwasanaeth o ganu carolau yn Eglwys St. Mair ar brynhawn dydd Sul, Rhagfyr 22, am 4 o'r gloch. Pwrpas y gwasanaeth yw dod a phawb ar ei gilydd o flaen y Nadolig fel hyn i ganu carolau. Yn ystod y gwasanaeth gobeithir cael eitemau gan dalentau lleol yn ogystal a chyfraniad gan Mr John Eifion Jones, unawdydd o fri. Bydd y casgliad a wneir yn mynd at waith Cymorth Cristnogol. Mae hwn yn wasanaeth sydd yn agored i bawb. **Cymdeithas Lenyddol Undebol:** Sicrhawyd noson i'w chofio yn y Ganolfan, nos lau, Tachwedd 28, pan fu i'r Gymdeithas groesawu Cwmni Drama Berea, Bangor, i lwyfanu dwy ddrama fer. 'Roedd y cyfan yn foddhad pur. Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd y Gymdeithas wedi cynnal noson o garolau o dan arweiniad Mrs Beti Peris Roberts a Miss Olwen Bryn Roberts yn y Ganolfan ar nos lau, Rhagfyr 19. Bydd y Gymdeithas yn cyfarfod eto ar nos lau, Ionawr 9, am 7 pan gynhelir Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn.

Cydymdeimlo: Fel ardal rydym yn cydymdeimlo â theulu y ddiweddar Mrs Enid May Jones, gynt o Cae Canol, Fachwen, a fu farw ar Tachwedd 29. Cofiw'n yn ein gweddïau am ei phriod annwyl, Emmanuel a'r plant Robert, Gwenfron a Gwyn.

Gwellhâd Buan: Anfonwn ein cyfarchion at bawb o'r pentref nad sydd yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd. 'Rydym yn meddwl tipyn amdanoch ac yn dymuno adferiad buan i bob un ohonoch.

Ffurio Cwmni Drama: Tybed a oes gan unrhyw un o ardal yr Eco sydd yn ymwneud â byd y ddrama, ddiddordeb mewn cynorthwyo rhai o bobl y pentref i lwyfanu dramâu byr yn ystod y misoedd nesaf. Gobeithir dechrau ymarfer yn y flwyddyn newydd ond mae angen help llaw gyda'r gwaith cynhyrchu. Byddai Glyn Tomos, Pen y Bwlch (Llanberis 870576) yn falch o glywed gennych. **Cyfarchion yr Wyl:** Nadolig Llawn i bob un ohonoch a Blwyddyn Newydd Dda.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr y Clwb 1/12/91 yw — £35: Mrs M. Jones, 12 Ffordd Glanffynnon, Llanrug (029); £25: Mrs A. Roberts, 22 Snowdon St., Llanberis (020); £15: Mr M. Price, 32 High St., Llanberis (036); £10: Mr E. Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis (166); £5: Mrs J. Thomas, 41 Dôl Elidir, Llanberis (112). **'Pelen eira' Nadolig:** £50: Miss M. Davies, 5 Rhes Efrog, Llanberis (004); £50: Mrs M. Roberts, Birmingham House, Llanberis (111).

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Eglwys St. Padarn, nos lau, Tachwedd 7. Mrs Nancy Jones agorodd y cyfarfod gyda gweddi, a chroesawyd y siaradwraig wadd, Mrs Eluned Ellis-Jones gan Mrs A. Parry Jones. Dangosodd Mrs Ellis-Jones sleidiau diddorol ac addysgiadol iawn o wlad Israel, a siaradodd am hanes y wlad drwblus honno. Diolchwyd i bawb yn gynnes gan Mrs M. Lennon. Cafwyd y baned arferol y mis hwn gan Mrs B. A. Owen a Mrs K. Williams. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs B. Owen, gan Mrs M. Ellis.

Yn y cyfarfod o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar nos lau, Rhagfyr 5, yn Eglwys St. Padarn arweiniwyd yr aelodau mewn gweddi gan Mrs Nancy Jones, a ddiolchodd hefyd i Mrs Elizabeth Wright am ei

hanerchiad ddiddorol. Siaradodd yn huawdl iawn am yr afiechydon a oedd yn amlwg yn yr ardal yma yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Rhoddwyd y raffl y mis yma gan Mrs Margaret Ellis ac fe'i enillwyd gan Mrs Jean Roberts. Rhoddwyd y baned o de gan Mrs Buddug Hughes a Mrs Olwen Morris. Diolchwyd iddynt gan Mrs Anne Parry-Jones.

Clwb Eryri: Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd ar nos lau, 5 Rhagfyr. Llywyddwyd y noson gan Eirwyn Jones a chafwyd cyfraniad gloyw iawn ar y piano yn ogystal a sgwrs ddifyr a thrafodaeth ar gerddoriaeth tros yr oesoedd gan Cledwyn P. Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Wener, 3 Ionawr 1992, pryd yr anerchir gan John Roberts ac a lywyddir gan lolo Llywelyn.

Llongyfarchiadau i Alice ar gyrraedd ei phenblwydd yn 21ain oed ar Ragfyr 26. Pob lwc oddi wrth Mam, Dad, Karen a Saad, 19 Maes Padarn. **Diolch:** Dymuna Mr Wilbert Davies, 3 Rock Terrace, ddiolch i'w ffrindiau a'i gymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ym Mangor.

Coffâd: Cofion annwyl am Hetty, gwraig, mam a nain dyner; a Nell Davies a May Davies, Stryd Siarlot gynt. 'Yn angof ni chânt fod.' Bob Hughes, Elizabeth, Griff ac Eluned a'u teuluoedd.



Parti'r chwain wrthi yn Ninorwig.

CYFARCHION PENISARWAUN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

Aled Jones

Peiriannydd

Gwres Canolog

a Phlymio

4 Bryn Eglwys


Penisarwaun

Ffôn: Llanberis

871047

Am bob math o wydr wedi'i dorri, ddanfon neu osod. cysylltwch â

Barrys GLASS



Camalot, Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871144

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

TONY A JO

SIOP GRON

A SWYDDFA'R BOST
PENISARWAUN

FFON: LLANBERIS 871272

Diolch yn fawr i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn



Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb oddi wrth

**CARTREF NYRSIO
PENISARWAUN**

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Yr Ysgol Feithrin: Fore Mercher, Rhagfyr 18, am 10 a.m., gwahoddir chwi i ymuno â'r plant. Pris 50c. Bydd Parti Nadolig yr Ysgol Feithrin a Chylch Ti a Fi fore Gwener, Rhagfyr 20. Mae Siôn Corn yntau ar ei ffordd. Wedi'r gwyliu bydd yr Ysgol Feithrin yn ail gychwyn ar ddydd Mawrth, Ionawr 7, am 9.15 a.m.

Urdd Adran Bentref: Nos Fawrth, Tachwedd 19: daeth Mr Leslie Larsen i ddangos sleidiau diddorol. Gwelwyd aml i wyneb cyfarwydd ar y sgrîn. Diolchodd Iwan Glyn iddo am ddo i ddiddori'r plant.

Tachwedd 26: noson yng ngofal Mr Leslie Jones. 'Roedd ganddo yntau sleidiau o Ganada i'w dangos. Talwyd y diolchiadau gan Nia Lewis.

Rhagfyr 3: Bu'r plant yn brysur yn gwneud cardiau Nadolig gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail. Diolchodd Elgan iddi am roi ei hamser iddynt.

Dyma restr o'r gweithgareddau ar gyfer mis Ionawr — Ionawr 7: Gêm Chwilen; Ionawr 14: Duncan Brown; Ionawr 21: 'Fy Hoff Beth'; Ionawr 28: Mr Islwyn Williams.

O Awstralia i Gymru: Croesawn Susan a Trefor Rowlands a'r plant, Daniel, Ben a Mathew, yn ôl i'r pentref am ychydig o wythnosau. Symudasant i fyw i Awstralia rhyw ddwy flynedd yn ôl a deallwn eu bod yn hapus iawn yno. Ganwyd merch fach a chwaer fach i'r teulu, sef Naomi, a dyma ei hymwelid cyntaf hi â Chymru. Ein cofion annwyl atoch a gobeithio y mwynhewch weddill eich gwyliau er gwaethaf y tywydd oer.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Tachwedd yn Sycharth a'r enillwyr oedd 1, Beth Hughes, Bryn Hyfryd; 2, Janice Jones, Perthi; 3, Beth Pritchard, Caernarfon. Gobeithir mynd o amgylch y pentref i ganu carolau ar nos Lun, Rhagfyr 23 gan gychwyn o Llys y Gwynt am 6.30 p.m. Tynnir Clwb Cant ar y noson. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn hwyl yr ŵyl. Anfonwn ein cofion anwylaf at Hugh Williams.

Diolch: Diolchir i Jonathan Richardson, Llys Helyg, am ei rodd i'r Eco y mis diwethaf.

Ysgol Sul Bosra: Bydd Gwasanaeth Nadolig bawn Sul, Rhagfyr 22 am 2 p.m., ar y cyd â phlant Ysgol Sul Sates Helen. Gwasanaeth o ddarlenniadau a chanu carolau, ynghyd â'r carolau cyfarwydd. Gwneir casgliad. Croeso cynnes i bawb. Bawn Llun bydd parti Nadolig i'r holl aelodau yn Neuadd yr Eglwys. Bydd Siôn Corn yn siŵr o alw. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at barti y plant. Bawn Sul, Rhagfyr 29, cynhelir gwasanaeth Cristingi yn Eglwys Santes Helen am 4.30 p.m. Cymerir rhan gan aelodau y ddwy Ysgol Sul.

Gwellhâd: Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

Ysgol Tan y Coed: Mae'r fflw, neu beth bynnag ydi o, wedi dod yn ôl i'r ysgol eto fel y gwnaeth ddwy

**GERDDI
GLASCOED**
(Ger Capel Glascoed
PENISARWAUN

Rwan yw'r amser i
blannu coed,

bylbiau a llwyni

Galwch heibio
neu ffoniwch

870453

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Greni ♥ Bedyddio ♥ Iŵed ♥ Priodas ♥

♦ Aichlysur arbennig? ♦
♦ Anrheg unigryw? ♦
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

♦ Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

♦ Hefyd gwniaidwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.g.y.f.

♦ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau o farddoniaeth

Am waith

PEINTIO, ADDURNO

a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll

flynedd yn ôl. Mae'r plant, yr athrawon, a'r myfyrwyr wedi bod yn mynd i lawr un ar ôl y llall. Gobeithio y bydd pawb yn iach dros y Nadolig.

Cafodd y plant wledd gan Miss Nia Jones yn ddiweddar pan ddaeth yma i siarad a dangos ffilm am waith Barnardos. Yn fuan wedyn daeth fan Clwb Sbondonics draw gyda arddangosfa ardderchog o ychydig o'r llyfrau Cymraeg sydd ar gael yn awr. Digon o syniadau ar gyfer anrhegion Nadolig.

Ar nos Wener, Tachweedd 29, cynhaliodd y Cyfeillion Ffair Nadolig i godi arian i gronfa'r ysgol. Noson ardderchog oedd hon a deud y lleiaf. Cafwyd ymateb bendigedig gan y gymuned unwaith eto a gwnaed elw o dros £300. Diolch i bawb am drefnu'r noson ac am eu cefnogaeth.

Uchafbwynt y tymor oedd ein gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen ar ddydd Iau, Rhagfyr 12. Gwnaed y casgliad eleni ar gyfer Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd. Gobeithio fod pob un a fynychodd wedi mwynhau ein gwasanaeth, a diolch am eich haelioni. Diolch hefyd i'r myfyrwyr, Miss Christine Jones a Miss Alison Edwards am gymryd rhan yn y gwasanaeth. Gobeithio eu bod wedi mwynhau eu cyfnod ymarfer dysgu gyda ni a dymuniadau gorau am y dyfodol. Diolch hefyd i'r athrawon a weithiodd mor galed i baratoi y plant am y gwasanaeth, ac i Mrs Ann Thomas yn enwedig am gynllunio'r gwasanaeth mor ofalus, ac am ymgymryd â'r gwaith mwyaf o'i baratoi.

Ar ddydd Mawrth cyn cau roedd ein cinio Nadolig eleni. Unwaith eto cafwyd gwledd gan ferched y gegin. Diolch yn fawr i chwi am fod wedi gweithio mor galed i wneud yr achlysur yn un mor hwyliog ac arbennig i'r plant — a'r athrawon hefyd.

Ar ddiwrnod olaf y tymor daeth Mr Dafydd Evans atom o Adran Diogelwch y Ffyrdd i ddangos fideo berthnasol a thymhorol i'r plant a gyda hyn fe ddaeth tymor arall i ben.

Dydd Llun, Chwefror 17, fydd diwrnod olaf Mrs Mary Davies yn yr ysgol cyn ymddeol ar ôl dros ugain mlynedd o wasanaeth. Fe fydd ymddeoliad Anti Mary yn golled fawr i bob un ohonom yn yr ysgol, a bwriadwn ei chyflwyno â thysteb fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am y cyfan a wnaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Os ydych yn dymuno cyfrannu, a fyddwch cystal ag anfon eich rhodd i'r ysgol cyn dydd Gwener, Chwefror 1, os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

PLANT YR YSGOL FEITHRIN



Clwb Pobl y Cwm:

Ar Ragfyr 5, cafwyd sgwrs ddifyr gan Mr Llew Hughes, y llywydd, ar y testun 'Muriau'. Yn ogystal talodd Mr Hughes deyrnged i'n diweddar

aelod Mr Russell Rowlands, a dymuna yr holl aelodau estyn eu cydymdeimlad â Mrs M. Rowlands ei briod, a'r bechgyn a'u teuluoedd — bydd chwithdod mawr yn y Clwb heb

Russell. Yn ogystal cydymdeimlwyd â Mrs K. Watkins ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith, ac â Nan Owen ar farwolaeth ei phriod, Mr David Hugh Owen — Nan a David Hugh wedi eu magu yn y Cwm.

Y gwestwagedd oedd Mrs E. Hughes, Miss E. Hughes a Miss M. Davies. Enillwyd y rafflau gan Mrs J. Parry a Mr Ll. Hughes.

Llongyfarchiadau i Avril ac Eifion Jones, Glan y Don, ar enedigaeth eu merch, Anest Mair, chwaer fach i Carys ac wyres i Mr a Mrs Hugh Jones, Bod Elan.

Cyfarfod Coffa: Cynhaliwyd cyfarfod coffa i'r diweddar Mr David Hugh Owen, gynt o Glasfryn, yng Nghapel y Tabernacl, ddydd Sadwrn, Tachwedd 30. Bu Mr Owen yn aelod ffyddlon a gweithfar yn y Tabernacl am flynyddoedd, a'i dad, y diweddar Mr Trefor Owen, yn ddiagon yn yr eglwys. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Gweinidog, y Parchg Gwynfor Williams, a thalodd deyrnged uchel i'r diweddar Mr Owen ynghyd â chydymdeimlad dwfn yr eglwys a'r ardal i'w briod Mrs Nan Owen a'r ddwy ferch. Cynrychiolwyd y Tabernacl gan Mr Llew Hughes, Mr Len Parry a Mr Hywel Morris.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Ffair Nadolig: Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yn y Ffestri, nos Iau, Tachwedd 28, dan dawdd Sefydliad y Merched. Cafwyd gemau a chystadlaethau amrywiol ynghyd â'r byrddau gwerthu a'r prif atyniad oedd ymweliad Siôn Corn a chafodd nifer o'r plant fel unigolion a grwpiau dynnu eu lluniau gydag ef. Enillwyd y raffl oedd, Mrs Helen Roberts, Llwyncoed Bach (Hamper Nadolig); Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth (bocs bisgedi); Miss Lowri P. Roberts, Godre'r Coed (gwin); Mr D. G. Ellis, Gwledfa (bocs siocled); Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian (gwin); Mr D. G. Ellis (cacen ffrwythau); Andrew Jones, Tŷ Coch (bocs siocled). Gwnaed elw o dros £200 a diolchir i bawb am eu cefnogaeth.

Cydymdeimlad: Mae ein cydymdeimlad â Mrs Ann Parry, Brynteg, a Mrs Sheila Williams, Bryn Hyfryd, yn eu profedigaeth o golli eu tad, y diweddar Mr Percy Allen, Caernarfon. Hefyd Mr John Morris, Griolen, Erw Nant, yn ei profedigaeth o golli ei fam, y ddiweddar Mrs

Catherine Morris, Llanuwchllyn. **Llongyfarchiadau** i Mrs E. M. Roberts, Bronallt, ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganwyd ŵyr i Mrs Vera Lumb ei merch, yng Nghaer. **Rali Garolau:** Cynhaliwyd Rali Garolau yng Nghapel M.C. Brynrefail, nos Fawrth, Rhagfyr 10, o dan nawdd Ffederasiwn Gwryfai o Sefydliad y Merched. Estynnwyd croeso i'r gwahanol ganghennau a darllenwyd y carolau gan Mrs Pat Jones. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Alma Jones, Caerenarfon; Mrs Victor Jones, Llandwrog a Mrs Pegi Wyn Jones, Pen-y-groes. 'Roedd gweddill y cyfarfod ar ffurf Gwasanaeth Plygain a chymerwyd rhan gan Sefydliad y Merched Menai a'r Waunfawr; Megan Jones, Y Felinheli; Katy Wyn Jones, Llandwrog; Sefydliad y Merched Arfon, Pontrug a Brynrefail. Yr organydd oedd Miss Lowri Prys Roberts a thraddodwyd y fendith gan Mrs Jennie Angharad Roberts. Bu'n noson fendithiol a chartrefol gyda'r carolwyr yn cael eu croesawu yng nghyntedd y capel gyda chyfleth

trwy garedigrwydd Mrs Jennie A. Roberts a Mrs Carol Houston a mwynhaodd pawb o'r gynulleidfa baned a mins peis yn y Ffestri ar y terfyn. Roedd y casgliad o £54 a wnaed yn ystod y gwasanaeth yn mynd at Hospis yn y Cartref-Gwynedd. Talwyd gair o ddiolch ar ddiwedd y noson gan Mrs Maud Williams a Mrs Marian Williams, Caernarfon.

W.H. JONES

Trydanwr

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 871470

Contractau


Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Nadolig Llawn
a Blwyddyn
Newydd Dda



OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU
TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Cacennau
Nadolig a
Bara Brith
Traddodiadol

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



HAUL, EIRA A SIOE

'Call iawn, wir,' oedd ymateb cymydog i mi pan ddeudis i wrtho mod i am fynd i Sbaen am chydig ddiwedd Tachwedd.

'Does' na ddim fel tipyn o haul i jarjio'r batris at y gaea,' ychwanegodd.

Ia, haul — dyna sy'n dod i feddwl pawb pan sonnir am Sbaen, ond ma' na fwy i'r wlad ddiddorol hon na torheulo ar draethau'r Costa Llosgi Bol.

A dyna be' wnes i a Myra y tro hwn — penderfynnu mynd o gwmpas y rhan ddeheuol o'r wlad a adwaenir fel Andalusia — a yngenir fel Andaluwchia gyda'r acen ar y thi.

Yn y rhan hon o'r wlad mae dinasoedd hanesyddol a diddorol Granada, Córdoba a Seville, ac fe gewch gyfle hefyd i dreulio ychydig yng nghysgod craig enfawr Gibraltar, a gwneud cyfeillion â'r epaod crafog sy'n cartrefu yno.

'Does gen i fawr i'w ddweud bellach wrth draethau melyn y Costa ond yn niwedd Tachwedd does na ddim carped swllyd o Saeson yn hawlio'r tywod. Na, ma' hi'n eitha' tawel yno ac fe gewch eich siâr o'r haul hefyd.

Ond nid yr haul yn unig sy'n denu'r miloedd i Andalusia yn ystod y gaeaf. Cwta gan milltir — taith dwy awr — o draethau'r Costa mae mynyddoedd y Sierra Nevada, lle gellwch sgïo mor hyderus a Eddie yr Eryr i lawr y llethrau.

'Eira yn Sbaen?' meddech. O oes, ac yn 1995 fe gynhelir pencampwriaethau sgïo'r byd ar lethrau llithrig y Sierra Nevada. Mae'r darpariaethau eisoes ar y gweill a gwestai moethus yn cael eu codi ar y llethrau. Ydi, mae'n bosib i chi fedru sgïo a thorheulo yn Andalusia yr un diwrnod.

Y prif atyniad yn Granada yn sicr yw y Palas Alhambra yr honnir iddo fod yn wythfed rhyfeddod y byd. Braidd yn siomedig oeddwn i yn y Palas ac fe ges i fwy o bleser yn mynd o gwmpas y Mosq yn Cordoba, a threulio ychydig ddyddiau yn ninas brysur Seville.

Dinas brysur? Ia, yn sicr, oherwydd yma y cynhelir Expo '92 — Sioe y Ganrif — o Ebrill hyd fis Medi nesa'. Disgwylir tua 27 miliwn o bobl i ymweld a'r Sioe, lle daw 110 o wledydd i arddangos gwahanol agweddau o'u gorffennol a'u dyfodol. Ar bafiliwn y Swisdir mi fydd y tŵr 25 metr wedi ei wneud yn gyfangwbl o bapur; tra bydd arddangosfa Monaco ar ffurf acwariwm, gan roi'r profiad i chid eich bod yn cerdded ar waelod y môr.

O gwsmpas y sioe enfawr hon mi fydd na 500,000 medrau sgwâr o erddi a pharciau a 350,000 o goed a phlanhigion o bob rhan o'r byd.

Dywedir mai ardal Seville yw padell ffrio Andalusia — lle ceir y tymheredd ucha' yn y wlad.

Ys gwn i a fydd na gwmnïau teithio o Gymru yn trefnu teithiau i Expo '92 y flwyddyn nesa'. Fy nghyngor i ydi — ewch yno yn gynnar yn Ebrill neu ar ddiwedd y sioe ym mis Medi, oherwydd roedd hi'n anioddefol o boeth yn Seville ym mis Tachwedd eleni, er bod eira ar fynyddoedd y Sierra Nevada.

Un nodyn diddorol i orffen. Yn sgîl dathlu Expo '92 — ar Awst yr ail mi fydd na dair llong yr union faint, yn hwylio o'r union le ac ar yr union ddiwrnod y bu i Columbus hwylio ar ei 'antur enbyd'. Bydd, mi fydd na yr union faint o griw ar y tair llong hefyd,

sef 90, ac mi fyddant yn anelu at gyrraedd ynysoedd y gorllewin ar yr union ddyddiad y bu i Columbus gyrraedd yno. Antur enbyd? Un ddiddorol o leia'.

Tair ar ddeg o longau oedd gan Madog medda' nhw. Pryd cychwynodd o deudwch? Ond yn bwysicach o bosib — pryd cyrhaeddodd o?

Coeliwch fi nid wrth dorheulo ar y Costa Llosgi Bol y profwch chi ryfeddodau Sbaen, ac mi fydd llygaid y byd ar y wlad hon yn ystod y flwyddyn nesa' 'ma — Gemau Olympaidd Barcelona a Expo '92 Seville.

SELWYN GRIFFITH

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

Llanberis 870484

Nadolig
Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
i bawb



I DDYSGU DREIFIO EFO STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch
Bangor 364143

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda i bawb

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

CEIR ELIDIR LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract

Pell ac Agos

Maes Awyr a Phorthladd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb

PENCAMPWYR CARIOCI

O fewn ychydig wythnosau roeddem wedi mynd o ganu yng nglwb bychan Caernarfon i ganu o flaen miloedd o bobl yn yr Empire Ballroom, Leicester Square, Llundain. Deilliodd hyn, oherwydd i ni ennill pencampwriaeth Carioci i glybiau ieuenctid Gwynedd yng Nghaernarfon. Ac yna dod yn fuddugol ym mhencampwriaeth Cymru yn Y Gelli Gandryll.

Cychwyn fore Sul, Rhagfyr 8, am 5.30 y bore. Roedd y bws yn llawn, ac roedd pawb yn frwd iawn — eisiau cyrraedd cyn hyd yn oed gychwyn!

Fe gyrhaeddwyd ffiniau Llundain am 11 ac roedd hi'n 11.30 erbyn i ni gyrraedd Leicester Square.

Aeth Glenda, Hefina, Ceryl, Carolyn a minnau yn syth i mewn i'r ballroom. Roedd pawb arall wedi cael mynd i siopa ychydig. Erbyn i ni gyrraedd roedd pawb a oedd yn cymryn rhan yn y Carioci ar y llwyfan yn ymarfer 'We'll Never Walk Alone'. Aethom i ymuno â hwy.

Am 12.30 cawsom ginio yn llawr uchaf yr adilad. Yn syth ar ôl bwyta aethom i newid a gwneud ein hunain yn barod. Erbyn hyn roedd gweddill criw'r Waunfawr wedi cyrraedd a daeth Diane a Manon i roi minlliw ar ein gwefusau.

Wedi hyn cawsom gyfweiliad gan 'Hel Straeon'. Yn y cyfamser, cyn perfformio, cawsom gyfarfod â 'Fresh' — grŵp newydd o Lundain a chawsom ychydig eriau gyda Toyah Willcox. Am 4 fe gychwynodd y perfformiadau. Roeddem ni'n bedwerydd allan o 22 i ymddangos ar y llwyfan.

Wedi i bawb ganu roedd yn rhaid ymgynull yn y cefn. Aethom ar y llwyfan yn nhrefn ein ymddangosiad i dderbyn ein tlysau. Roedd pawb yn cael tlws yr un, a chawsom fag yn llawn o anrhegion.

Aethom ymlaen am y tro olaf i

ganu 'We'll Never Walk Alone'. Roedd pawb yn eu hetiau Siôn Corn yn canu nerth ein pennau, ac yn gafael dwylo a chwifio ein breichiau. Ymunodd llawer iawn o'r gynulleidfa gyda ni yn y canu. Dyma oedd uchafbwynt y diwrnod i mi.

Erbyn hyn roedd hi tua 5.30. Buom yn dawnsio yn y disgo wedyn nes ei bod yn amser mynd adref. Cychwyn am adref tua 6.45 a chyraedd y Waunfawr am 1.30 y bore. Roedd pawb wedi llwyr ymladd. Er hynny, roedd pob un ohonom wedi cael diwrnod gwerth chweil.

Gwennan Jones.

CYFARCHION O LANRUG

Gan nad ydyw'n anfon cardiau eleni dymuna Mrs Gwladys M. Jones, Y Dalar Deg, Nadolig Hapus i'w ffrindiau, teulu a chymdogion caredig, gyda diolch iddynt oll am bopeth yn ystod y flwyddyn anodd a aeth heibio.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm cyfeillion oll ym mro Eco'r Wyddfa, oddi wrth Mrs Margaret Evans, Llys Eiddon, Llanrug.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu

Caernarfon 4520
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Dyddiadur y Mis

IONAWR 1992

1 **Mercher. Dydd Calan** — Blwyddyn Newydd Dda.

3 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8. **Llanberis a'r Ardal:** Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.

6 **Llun. Waunfawr:** 'Cylch Ti a Fi' yn y Ganolfan am 1.30. **Deiniolen:** Sefydliad y Merched.

7 **Mawrth. Deiniolen:** Undeb y Mamau am 7. **Penisarwaun:** Yr Urdd — Gêm Chwilen.

8 **Mercher. Llanrug:** Capel Mawr — Y Gymdeithas Lenyddol — Cyfarfod Gweddi am 7. **Waunfawr:** Pwyllgor yr Urdd yn y Ganolfan am 6.

9 **Iau. Dinorwig:** Cymdeithas Lenyddol Undebol — Cyfarfod Gweddi am 7.

10 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

13 **Llun. Ysgol Brynrefail:** Cyrsiau Hyfforddi Chwaraeon yn cychwyn.

14 **Mawrth. Llanrug:** Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

Penisarwaun: Yr Urdd — Duncan Brown.

15 **Mercher. Llanrug:** Plaid Cymru — sgwrs gan Dafydd Orwig yn y Sefydliad Coffa am 7.30. **Waunfawr:** Yr Urdd yn y Ganolfan am 6.30.

16 **Iau. Bethel:** Yr Urdd yn yr Ysgol.

17 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

21 **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd — 'Fy Hoff Beth'

22 **Mercher. Llanrug:** Capel Mawr — Y Gymdeithas Lenyddol — noson gyda Cantorion Elidir am 7.30. **Waunfawr:** Yr Urdd — Mr Leslie Jones — yn y Ganolfan am 6.30.

24 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.

27 **Llun. Llanrug:** Tombola yn Ystafell y Band.

28 **Mawrth. Penisarwaun:** Yr Urdd — Mr Islwyn Williams.

31 **Gwener. Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band am 8.



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn



THE
SEIONT
MANOR
HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY




HAMDDEN

Diolch am eich cefnogaeth

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu ym 1992

CROESAIR IONAWR



AR DRAWS

- Castell un o'n seintiau (8)
- Mae ef yn ateb (4)
- Ddim yn dda (3)
- Dewis o ddwy ffordd (5)
- Atalnod neu godyn Morse (3)
- Eglwys sant 1 ar draws (7)
- Haul trwy'r diferion glaw (5)
- Dewis o ddau sy'n cymylu'r gweld (4,3,4)
- Tyrfa i Cynan (1,4)
- Ewin aderyn (7)
- Dechrau un o'r tri'n y ffwrn dân (3)
- Nifer neilltuol o wartheg yn y da (3,2)
- Mewn ceir y mae mynd yno (3)
- Arian 'Heno, heno . . .' (4)
- Esmwyth (8)

SYLWADAU AC ATEBION

Dau ymgeisydd yn unig y tro hwn — pawb arall yn rhy brysur gyda threfniadau'r Nadolig mae'n siwr. Yn anffodus 'doedd yr un o'r ddau'n hollol gywir!

8 ar draws achosodd y broblem i'r ddau — 'Ymson unig'. Oherwydd i'r ail ran fod yn anghywir, aeth atebion 4 a 5 i lawr ar chwâl. Gwell lwc y tro nesaf.

I LAWR

- Uno un ac un arall (6)
- Ceisio ei gael yn euog (5)
- Dŵr yn ffrwtian (5)
- Anedde boddhaol (2,5)
- Bu 'Cefn' yn — Coed (5,1)
- Llen olaf mewn theatr (5,5)
- Hylif yn llifo trosodd (7,3)
- Llinell dymheredd (7)
- Mymryn i'w yfed (6)
- Dau mewn un — teitl prydddest gyfansawdd (6)
- Anedde anifail anwes (5)
- Credw o'r galon (5)



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.R. PRITCHARD
BONTNEWYDD

Ffôn:

Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr

Ffenestri a Drysau



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



CHWARAEON

. . . 8, 9, 10 — ALLAN!

O'r holl gampau a drafodwyd yn yr *Eco*, mae'n siŵr mai bocsio gafodd y lleia' o sylw. Mae campau Kenny Griffith, 13 oed, o Bant Tirion, Llanrug, yn unioni ychydig o'r cam. Ers mis Hydref diwethaf bu'n aelod brwdfrydig o Glwb Bocsio Amatur Llangefni. Bydd yn ymarfer yno ddwy noson yr wythnos dan lygaid treiddgar ei hyfforddwr John Pritchard — aelod o'r teulu enwog o focsiwyr o Fôn. Yn ychwanegol i'r 'hyfforddi swyddogol' mae Kenny yn neilltuo rhan o bob nos ar gyfer rhyw agwedd o ymarfer — yn enwedig stamina. Y sied yn yr ardd gefn yw ei 'Albert Hall' bryd hynny. Mae ffyrdd troellog y Clegir a'r Ceunant yn hen gyfarwydd iddo hefyd. Mae'r elfen hunan-symbyliad yma yn hollol angenrheidiol i un sy' a'i fryd ar lwyddo. Dyna'r gwahaniaeth rhwng y 'go lew' a'r 'da' yn aml.


Mae ei frawd mawr, Nigel, hefyd yn aelod o'r Clwb. Enillodd tair gornest, ond oherwydd galwadau gwaith, ni fydd Nigel yn bocsio eto tan y flwyddyn newydd.

Mae gornestau Kenny yn golygu cryn deithio ac eisoes bu 'yn y sgwâr' yn Manceinion, Caer a Phontypridd. Bu hefyd yn bocsio ym Mangor a Chaergybi. Unwaith yn unig y collodd Kenny hyd yn hyn, a llwyddodd i ennill tair gornest y tu mewn i'r amser penodol.

Mae bocsio dan gryn gwmwl ar hyn o bryd yn dilyn anafiadau truenus. Mae'n ofynnol, felly, i gael canllawiau cadarn i sicrhau amodau diogel iawn i focsiwyr oed Kenny. Ceir archwiliad trylwyr iawn cyn bob gornest ac ni chaniateir i unrhyw ornest fynd rhagddi os bydd mwy na phedwar pwys o wahaniaeth ym mhwsau'r bocsiwyr.

Mae llawer o ieuenctid ein bro yn hynod o ffodus i'r llw o wirfoddolwyr sy'n meithrin a chynnal clybiau'r ardal. Braf nodi felly orchest un fel Kenny oherwydd ei ddynwch a'i hunan-benderfyniad. Mae Colin Jones yn un arall o'r brîd yma. Dymunwn yn dda i Kenny i'r dyfodol.

A fu traddodiad o focsio (nid cwffio!) ym mro'r *Eco* yn y gorffennol? A oedd unigolion o fri? Gadewch i ni wybod.



PYSGOTA

Adroddiad H. P. HUGHES

Daeth blwyddyn lewyrchus arall o'r Gymdeithas i ben. Cynhaliwyd y noson wobrwyo yng Nglan Gwna ar nos Sadwrn, Rhagfyr 7fed. Cafodd oddeutu 150 o bobl noson lwyddiannus iawn gyda Dafydd Iwan a'i Fand yn chwipio'r dyfroedd yn ei ffordd ddihafal.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon. Cafwyd cryn drafodaeth am y sefyllfa ariannol, gan anelu'r cynllion at warchod buddiannau y Gymdeithas i'r dyfodol.

Ar gyfer tymor 1992 y tâl aelodaeth i aelodau lleol (sy'n byw y tu mewn i ffiniau yr hen Gyngor Gwyrfa) fydd £47 os bydd wedi'i brynu cyn Dydd Gŵyl Ddewi 1992. I aelod sy'n byw y tu allan i'r ffiniau y gost fydd £66. Mae'r tocyn aelodaeth yn galluogi yr aelod i bysgota am eog a siwin ar oddeutu 40 milltir o afonydd Seiont, Gwyrfa a Llyfni. Cynhwysir yn tâl hefyd yr hawl i bysgota llynnoedd Padarn, Cwellyn, Y Gadair a'r Dywarchen. Fe fydd cyflenwad o bysgod yn cael eu rhoi yn y Dywarchen yn fisol drwy'r tymor.

Ni fydd pysgota ar Llyn y Dywarchen tan y Sadwrn cyntaf yn Ebrill (4ydd), pryd y cynhelir cystadleuaeth i'r aelodau iau. Ar y Sul (5ed) bydd cystadleuaeth i'r oedolion; ac o'r dydd Llun (6ed) ymlaen bydd y llyn ar agor i'r aelodau yn gyffredinol.

Dangoswyd cryn ddiddordeb mewn llogi cychod ar y Dywarchen, felly mae'n ofnol i'r sawl sy' a diddordeb gysylltu â ni cyn gynted ag sy'n bosibl.

Siomedig, ar y cyfan, fu tymor '91 am bysgota eog a siwin, ond mae'n ymddangos fod nifer dda o eogiaid i'w gweld yn claddu, felly gobeithiwn am dymor gwell y tro nesaf.

GOLYGYDD CHWARAEON NEWYDD

Richard Jones, o Fethel, fydd yn olynu Dafydd Ifans, wedi 15 mlynedd o lafur gwerthfawr gan Dafydd. Diolch iddo.

Ar y maes criced chwaraeodd i dimau ysgolion, colegau a llawn Cymru. Chwaraeodd dros 1,000 o gemau i glwb Bangor. Bu'n chwarae i Fethesda, Llechid, Y Normal a Llanbêr ar y meysydd pêl-droed.

Am wyth tymor bu'n ddyfarnwr pêl-droed, a'i ddwy gêm olaf oedd yr enwog 17-0 o rownd derfynol wych rhwng Deiniolen a Phenrhos. Bu'n golofnydd i'r *Cymro* a chyfranwr cyson i 'Byd y Bêl'.

'Fy nod yw adlewyrchu HOLL agweddau chwaraeon y fro,' yw ei sialens.

Y sawl sy' a chlust i wrando . . . !
Ei gyfeiriad yw 5 Y Ddôl, Bethel (670115).



PAN DDAW YR HAF . . .

Bydd cryn newid yn nhrefniadaeth Cyngor Criced Gwynedd y tymor nesaf. Bydd dwy adran gyda chlybiau Bangor a Bethesda yn ymuno â Fron Dinas a'r gweddill. Mae Dic Parry a Harry Jones, ysgrifennydd newydd y gynghrair, yn cynnal fflam tîm dan 16 Fron Dinas, yng nghyngrair ieuenctid Môn ac Arfon. Mae nifer o'r ieuenctid hyn o fro'r *Eco*. Beth tybed fuaasai'r ymateb i ffurfio tîm ieuenctid ym mro'r *Eco* i gystadlu yn y gynghrair ieuenctid? A fuaasai hyn yn esgor ar dîm yng Nghyngrair Gwynedd?

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

CANOLFAN RHYD-DDU

Ddiwedd mis Tachwedd fe aeth 17 o fechgyn o'r 3, 4 a'r 5 flwyddyn am ddau ddiwrnod i Ganolfan Rhyd-ddu.

Ar y diwrnod cyntaf fe aeth y grŵp i gyd ar daith gerdded dros Moel Hebog, Moel yr Ogof a Moel Lefn.

Ar yr ail ddiwrnod fe aeth bechgyn y 5ed ar daith arall o Rhyd-ddu i Lanberis dros Foel Goch, Foel Gron a Moel Eilio. Fe aeth gweddill y parti i Goedwig Beddgelert i gyfeiriadu ar y diwrnod yma.

'Roedd y bechgyn yn gyfrifol am baratoi eu bwyd eu hunain dros y ddau ddiwrnod — sôn am 'fry-ups'!!

PÊL-DROED

Yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen — Blwyddyn 1 colli 12-0 (Cwpan Cyril Rogers); Blwyddyn 2 ennill 5-2; Blwyddyn 3 colli 4-3.

SGÎO

Mae Caitlin Wroe wedi ei dewis i garfan tîm sgîo plant Prydain am y flwyddyn 1992. Bydd yn cystadlu am y tro cyntaf yn Altenmarkt ddechrau'r flwyddyn. Llongyfarchiadau calonog iddi.

TLWS PENCAMPWR Y MIS

Yn y rhifyn nesaf o'r *Eco* byddwn yn lansio cystadleuaeth newydd. Y bwriad yw gwobrwyo campwaith unigolyn sy'n dod i'r brig yn ystod y mis. Gall y sawl a enwebir fod yn chwaraewr/wraig, hyfforddwr, swyddog, trefnydd, a.y.y.b. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarllenwyr ddangos eu gwerthfawrogiad o brofiad neu ymroddiad unigolyn. Rhaid i'r sawl a enwebir fod yn enedigol o'r fro, neu yn aelod o dîm o'r fro. Gofynir i unrhyw un sy'n enwebu ddanfôn yr enwau i'r Golygydd Chwaraeon erbyn y 15fed o'r mis.

Fe wneir trefniadau wedyn i gyflwyno tlws i'r enillydd bob mis. Os bydd digon o ymateb fe drefnir noson i drefnu gwobrwyo 'Pencampwr y Flwyddyn'.

ANRHEGION YR WYL

(Y Golygydd newydd yn chwarae Siôn Corn)

I DDEINIOLEN: Maes pêl-droed o'r diwedd, fel y gellir unioni cam o flynyddoedd o wrthod.

I DÎM LLANBÊR: Storm neu ddwy, i atgoffa'r chwaraewyr mor gryf oedd y DARAN erstalwm!

I LANRUG: Yr hyder i gario 'mlaen y gwelliannau gwych a welwyd ar Eithin Duon.

I'R ARDAL: Rhoi mwy o gefnogaeth i'r sawl sy'n cynnal timau a chymdeithasau i ieuenctid yr ardal — eich plant CHI sy'n mynd yno!

CYNGOR ARFON: Y weledigaeth i osod maes aml-bwrpas ym mro yr *Eco*. Gall Canolfan Arfon fod yn bell a chostus i lawer.